Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-2014 a Chynllun Strategol 2014-2017

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-2014 a Chynllun Strategol 2014-2017

Adroddiad Blynyddol 2013-2014 a Chynllun Strategol 2014-2017 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 23 Hydref 2014*

HC 696

**(h) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2014**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc-uk.org

Print ISBN 9781474110792
Gwe ISBN 9781474110808

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 19091401 10/14 43506 19585

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

## Cynnwys

Rhagair .................................................................................................................. 5

Ein rôl..................................................................................................................... 6

Adolygiad o berfformiad 2013–2014 ...................................................................... 6

Cynllun strategol 2014-2017 .................................................................................. 24

Adolygiad ariannol ................................................................................................. 26

Adroddiad cydnabyddiaeth .................................................................................... 30

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd
mewn perthynas â'r cyfrifon .................................................................................. 37

Datganiad llywodraethu blynyddol ........................................................................ 39

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth........................ 49

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ...... 51

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben
31 Mawrth 2014 ..................................................................................................... 54

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2014................................................................................. 55

Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014............. 56

Nodiadau i'r Cyfrifon .............................................................................................. 57

Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 10 ....................................................... 65

Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2010 (Ffurf Cyfrifon) 2010.............. 80

# Rhagair

Mae'n bleser gennym nodi blwyddyn o welliant parhaus i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Dechreuodd ein Cyngor ar ei newydd wedd ar ei waith ym mis Mai 2013. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd ymdrin ag adroddiad Syr Robert Francis CF ar y methiannau enbyd ym maes gofal yng Nghanolbarth Swydd Stafford. Nododd ein cynllun gweithredu sut y byddem yn mynd ar drywydd gwersi o'r adroddiad. Rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd yn ei erbyn, er mwyn sicrhau bod ein cynnydd yn amlwg i bawb.

Roedd adroddiad Francis yn glir - rhaid i fuddiannau cleifion a'r cyhoedd ddod yn gyntaf bob amser. Mae ein Fforwm Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd wedi bod yn hanfodol o ran ein helpu i wneud hynny. Mae'r cyhoedd yn disgwyl trugaredd a gofal gan nyrsys a bydwragedd, a hynny'n gywir ddigon. Mae ein Cod yn nodi'r safonau sylfaenol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cyrraedd. Rydym yn diwygio'r Cod er mwyn cynnwys y gwerthoedd hyn. Mae'r cyhoedd hefyd yn disgwyl i nyrsys a bydwragedd ddarparu gofal diogel drwy gydol eu gyrfa. Gwnaethom gychwyn rhaglen fawr i gyflwyno proses ailddilysu ar ddiwedd 2015 gyda'r nod o ddarparu'r sicrwydd hwn. Rydym yn falch bod y proffesiynau a'r cyhoedd ar draws y pedair gwlad yn helpu i lywio'r newid pwysig hwn ym maes rheoleiddio nyrsio a bydwreigiaeth.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau cryfach sydd gennym bellach â'n holl randdeiliaid. Drwy gydweithio â hwy, rydym wedi cyflawni gwelliannau amrywiol gan gynnwys gwella'r ffordd rydym yn sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant; tynhau ein gwiriadau ar y sawl a hyfforddwyd dramor sy'n gwneud cais i ymarfer yma; a chyflwyno proses gofrestru ar-lein. Rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol ym maes addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys ymdrin ag achosion yn gynt a rhoi cymorth gwell i dystion.

Cydnabu adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad yn 2013-2014 y gwelliannau hyn a rhai eraill o ran y ffordd rydym yn rheoleiddio.  Ochr yn ochr â hyn, mae adolygiad allanol annibynnol bellach wedi cadarnhau ein bod hefyd wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau i'n prosesau llywodraethu a rheoli sefydliadol. Canfu fod y CNB bellach yn gryfach o lawer nag yn 2012.

Gwyddom fod gennym ragor i'w wneud. Mae ein deddfwriaeth bresennol wedi dyddio ac yn feichus. Nid yw o fudd i'r cyhoedd nac i nyrsys a bydwragedd. Mae angen ei diwygio'n sylweddol er mwyn sicrhau y gallwn  ddarparu'r ymateb cyflym ac ystwyth y mae'r cyhoedd yn ei haeddu. Rydym yn siomedig nad ydym eto wedi gweld y newid deddfwriaethol a addawyd ac rydym yn parhau i annog y Llywodraeth i gyflwyno'r newid hwn cyn gynted â phosibl. Hyd nes y gwneir hyn, rydym yn benderfynol o wneud rhagor o welliannau hyd eithaf ein gallu.

Rydym yn canolbwyntio ar wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid, datblygu dull mwy deallus o reoleiddio, a chydweithio'n fwy effeithiol gyda'n partneriaid gofal iechyd er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well. Gan edrych i'r dyfodol, bydd ein strategaeth bum mlynedd yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn parhau i wella hyd at 2020. Rydym yn falch o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma. Mae hyn yn deillio o ymroddiad ac ymrwymiad aelodau'r Cyngor, ein staff, ein

partneriaid a'n rhanddeiliaid. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â hwy er mwyn helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

**Mark Addison**
**Cadeirydd, CNB**
**9 Hydref 2014**

**CB Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**9 Hydref 2014**

## Ein rôl

1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU. Ein prif ddiben yw diogelu cleifion a'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd mewn ffordd effeithiol a chymesur. Rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Cyfrin Gyngor, am y ffordd rydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau.

2 Rydym yn pennu ac yn hyrwyddo safonau addysg ac ymarfer, yn cadw cofrestr o'r rhai sy'n cyrraedd y safonau hyn, ac yn cymryd camau pan amheuir addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Drwy wneud hyn yn dda, rydym yn hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn nyrsys a bydwragedd ac yn y drefn reoleiddio.

3 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn. Mae Pwyllgor Iechyd seneddol y DU hefyd yn craffu ar ein gwaith. Mae canfyddiadau ac argymhellion y ddau yn helpu i lywio ein gwaith.

## Adolygiad o berfformiad 2013–2014

4 Mae ein cynllun corfforaethol strategol yn nodi tri nod strategol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ein gweithgareddau ar sicrhau dulliau rheoleiddio effeithlon ac effeithiol er budd y cyhoedd.

5 Mae adroddiad Syr Robert Francis CF ar y digwyddiadau trasig yng Nghanolbarth Swydd Stafford (adroddiad Francis) wedi cael dylanwad enfawr ar ein gwaith, ac ar bawb sy'n ymwneud â gofal iechyd. Gwnaethom gyhoeddi cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2013 yn nodi'r ffordd y byddem yn ymdrin â'r argymhellion a nodwyd ar ein cyfer. Gwnaethom hefyd gyfrannu at ymateb terfynol Llywodraeth EM, sef "*Hard truths: the journey to putting patients first*" (2013). Fel un o gyd-lofnodwyr y "Datganiad o ddiben cyffredin", ynghyd ag arweinwyr eraill ym maes gofal iechyd, gwnaethom ymrwymo'n gyhoeddus i ddysgu'r gwersi a nodwyd yng Nghanolbarth Swydd Stafford, gan helpu i greu gofal gwell i gleifion a gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd digwyddiadau o'r fath yn digwydd eto.

6 Gwnaethom hefyd gymryd rhan yn y gyfres o adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan y llywodraeth yn dilyn adroddiad Francis, gan gynnwys: adolygiad Berwick o ddiogelwch cleifion, sef "*A promise to learn-a commitment to act: improving patient safety in England*" (2013); "*The Cavendish review: an*

*independent review of healthcare assistants and support workers in the NHS and social care settings*" (2013); adolygiad Clwyd-Hart "*A review of the NHS hospitals complaints system: Putting patients back in the picture*" (2013) a "*More care: less pathway: a review of the Liverpool Care Pathway*" (2013). Disgrifiwn y ffordd rydym wedi mynd ar drywydd camau a nodwyd yn adroddiad Francis ac adroddiadau cysylltiedig, lle y bo'n berthnasol, o dan bob un o'r nodau isod. Wrth wneud hynny, rydym wedi cadw mewn cof, er bod yr adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar Loegr, fod ein cylch gwaith yn ymestyn i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

7 Y neges bwysicaf a nodwyd o'r holl adolygiadau hyn yw'r ffaith bod yn rhaid i fuddiannau cleifion a'r cyhoedd fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau rheolaidd yn erbyn ein cynllun gweithredu ar ein gwefan, er mwyn sicrhau bod ein cynnydd yn glir i bawb.

**Nod 1 – Bydd diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.**

## Cofrestru

8 Mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn gyfreithlon yn y DU yn hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd. Dim ond y sawl sy'n dangos eu bod yn cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar y gofrestr, neu aros arni. Mae'n anghyfreithlon i nyrs neu fydwraig ymarfer os nad yw wedi'i chynnwys ar ein cofrestr neu os yw eu cofrestriad wedi mynd yn ddi-rym.

9 Ar 31 Mawrth 2014, roedd 680,858 o nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr. Gall unrhyw un gadarnhau statws cofrestriad nyrs neu fydwraig drwy chwilio drwy'r gofrestr ar-lein ar ein gwefan neu drwy ein ffonio neu ysgrifennu atom.

10 Fel rhan o'n rhaglen i wella'r broses gofrestru, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Gweithio i wella cywirdeb ein cofrestr er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau a wnaed o ganlyniad i achosion addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys rhoi rheolaethau cryfach ar waith.
- Sicrhau ein bod yn barod i gyflwyno gofyniad newydd i bob nyrs a bydwraig gofrestredig feddu ar yr yswiriant priodol o dan drefniant indemnio o fis Gorffennaf 2014, gan gynnwys darparu canllawiau er mwyn helpu nyrsys a bydwragedd i ddeall y gofynion newydd.
- Dechrau'r gwaith o gyflwyno proses gofrestru ar-lein. O fis Rhagfyr 2013, roedd grŵp peilot o nyrsys a bydwragedd yn gallu gwneud rhai newidiadau i'r manylion ar-lein. Yn dilyn llwyddiant y cyfnod peilot, mae pob nyrs a bydwraig wedi gallu adnewyddu ei chofrestriad ar-lein ers haf 2014.

- Ymrwymo i gyflwyno trefniadau i nyrsys a bydwragedd dalu ffioedd cofrestru drwy randaliadau o 2016 ymlaen ac rydym yn gweithio tuag at gyflawni hyn.

- O fis Ebrill 2013, atgyfnerthu ein prosesau ar gyfer ceisiadau gan nyrsys neu fydwragedd a hyfforddwyd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("dramor") sy'n gwneud cais i ymarfer yn y DU. Gwnaed hyn yn dilyn cyfnod byr o oedi cyn derbyn ceisiadau o dramor ar ddechrau 2013 oherwydd pryderon am y ffordd yr oedd ceisiadau o'r fath wedi'u hystyried yn y gorffennol. Cadarnhaodd archwiliad annibynnol helaeth fod ein rheolaethau wedi cryfhau'n raddol ers 2007. Ym mis Medi 2013, gwnaethom dynhau ein gwiriadau ar fanylion personol ymgeiswyr o'r fath a'u dogfennau ategol gan gyflwyno'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn ein helpu i wneud hyn.

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynlluniau i gyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr o dramor yn lle'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Ein nod yw rhoi hyn ar waith yn ystod 2014-2015.

11 Drwy gydol 2013-2014, gwnaethom weithio gyda rheoleiddwyr ym maes gofal iechyd er mwyn sicrhau na fyddai newidiadau a gynigiwyd i Gyfarwyddeb yr UE ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn effeithio ar ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd. Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y newid hwn pan gaiff ei gyflwyno yng nghyfraith y DU. Ar y cyd â rheoleiddwyr eraill, rydym yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau er mwyn sicrhau y daw darpariaethau'r gyfarwyddeb ddiwygiedig i rym yn y DU mewn ffordd sy'n helpu i ddiogelu'r cyhoedd i'r eithaf. Bydd hyn yn cynnwys chwilio am ffordd gymesur a chadarn o fesur a, lle y bo angen, asesu cymhwysedd ieithyddol nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd yn yr UE cyn y gallant ymarfer yn y DU.

12 Ein nod yw darparu gwasanaeth cofrestru effeithiol a phrydlon gan fesur hyn drwy ddangosydd perfformiad allweddol gyda tharged i gofrestru 90 y cant o geisiadau o fewn 90 diwrnod. Cawsom 28,959 o geisiadau newydd yn ystod 2013-2014 a gwnaethom bennu targed i gofrestru 90 y cant o fewn 90 diwrnod. Amrywiodd ein perfformiad cyffredinol gan ei fod yn dibynnu ar nifer y ceisiadau o bob math a geir.

- Ceisiadau yn y DU: gwnaethom ragori ar y targed, gan gyflawni ychydig yn llai na 100 y cant drwy'r flwyddyn.

- Ceisiadau o'r UE a thramor: effeithiwyd ar berfformiad yn sgil yr oedi wrth ystyried ceisiadau o dramor ond fe'i gwelwyd yn gwella'n raddol yn ystod y flwyddyn o 36 y cant ym mis Ebrill 2013 i 74 y cant erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

**Addysg a hyfforddiant**

13 Mae pennu safonau uchel ar gyfer addysg a hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd a dderbynnir ar y gofrestr yn ddiogel i ymarfer. Gwnaethom sefydlu Grŵp Cynghori ar Addysg yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o bedair gwlad y DU, cleifion, addysgwyr, uwch nyrsys a bydwragedd a myfyrwyr, yn ogystal â dau aelod o'r Cyngor. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor arbenigol ar ein gwaith ac mae'n goruchwylio'r broses o ddatblygu ein Strategaeth Addysg.

14 Dim ond sefydliadau addysgol sy'n cyrraedd ein safonau y caniateir iddynt ddarparu addysg a hyfforddiant yn y DU. Erbyn mis Medi 2013, roedd pob sefydliad addysgol cymeradwy wedi cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar y safonau newydd a bennwyd gennym yn 2010 ar gyfer hyfforddiant cyn-gofrestru nyrsys. Bydd y garfan gyntaf o nyrsys sydd wedi cwblhau cyrsiau sy'n seiliedig ar y safonau newydd hyn yn cofrestru â'r CNB yn ystod hydref 2014. Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gennym mewn ymateb i adroddiad Francis, byddwn yn dechrau gwerthuso'r safonau ar gyfer addysg cyn-gofrestru nyrsys a bydwragedd yn ystod 2014.

15 Nod ein fframwaith sicrhau ansawdd yw diogelu'r cyhoedd drwy gymeradwyo a monitro rhaglenni addysg a hyfforddiant nyrsys a bydwragedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysg cymeradwy er mwyn asesu a ydynt yn cyrraedd ein safonau a chymryd camau os credwn nad ydynt o bosibl yn gwneud hynny. Ar hyn o bryd, rydym yn cymeradwyo 79 o sefydliadau addysg cymeradwy i ddarparu 900 o raglenni addysg a hyfforddiant.

16 Y llynedd, gwnaethom y canlynol:

- Cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd cyfun newydd ar gyfer addysg ac awdurdodau goruchwylio lleol. Mae'r fframwaith newydd yn gymesur ac yn seiliedig ar ganlyniadau. Mae ein hymweliadau monitro bellach yn cynnwys adolygwyr 'lleyg' nad ydynt yn nyrsys nac yn fydwragedd. Mae hyn yn adeiladu ar y gofynion helaeth sy'n bodoli eisoes i sefydliadau addysg cymeradwy gynnwys cleifion a'r cyhoedd wrth gynllunio a datblygu rhaglenni hyfforddiant.

- Am y tro cyntaf, cyhoeddi'r rhestr o sefydliadau addysg cymeradwy ac awdurdodau goruchwylio lleol y bwriedir ymweld â hwy yn ystod 2013-2014 er mwyn gwella didwylledd a thryloywder am y maes rheoleiddio pwysig hwn. Cyhoeddir canlyniadau'r gwaith monitro sicrwydd ansawdd mewn adroddiad blynyddol ar wahân.

- Cyhoeddi manylion y camau y byddwn yn eu cymryd pan gaiff pryderon eu nodi. Mae hyn yn cynnwys ymateb graddedig yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y mater ac yn seiliedig ar yr angen i ddiogelu'r cyhoedd.

- Cyflwyno gwe-dudalen newydd er mwyn rhoi canllaw hygyrch i gleifion a'r cyhoedd ar ein rôl mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant nyrsys a bydwragedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y gwaith o sicrhau ansawdd rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth.

17 Rydym yn gweithio'n agos gyda chyrff partner ar draws y pedair gwlad sydd hefyd yn chwarae rôl mewn materion ym maes addysg, y gweithlu neu gomisiynu fel Health Education England, byrddau addysg a hyfforddiant lleol ac NHS Education Scotland, er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn ategu ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion a'r cyhoedd.

**Safonau**

18 Atgyfnerthodd adroddiad Francis ac adolygiadau cysylltiedig bwysigrwydd sicrhau bod ein safonau a'n canllawiau yn canolbwyntio ar ddiogelu cleifion a'r cyhoedd. Rydym wedi ceisio sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu yn ein safonau a'n canllawiau er mwyn dylanwadu ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd.

19 Mae ein gwaith eleni wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu ein dull gweithredu gan gynnwys:

- Gosod polisi cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n safonau a'n canllawiau ganolbwyntio ar gleifion a chanlyniadau a bod yn gyson â dulliau rheoleiddio cyffyrddiad cywir.

- Datblygu methodolegau clir (gan gynnwys meini prawf) ar gyfer datblygu ac adolygu safonau a chanllawiau a gwerthuso eu heffaith ar ddiogelwch y cyhoedd.

- Cytuno ar gylch o adolygiadau a gynlluniwyd mewn perthynas â safonau sy'n bodoli eisoes sy'n seiliedig ar ddadansoddi risg.

20 Mewn ymateb i'r adolygiad o Lwybr Gofal Lerpwl, *"More Care, Less Pathway"* (2013), gwnaethom ystyried y ffordd orau o ddarparu canllawiau ar sicrhau bod gofal diwedd oes yn bodloni dymuniadau ac yn diwallu anghenion cleifion a'u teuluoedd. Daethom i'r casgliad mai'r dull gweithredu mwyaf effeithiol a chymesur fyddai mynd i'r afael â hyn yn ein hadolygiad o'r Cod ar gyfer nyrsys a bydwragedd (gweler isod). Gwnaethom hefyd gydweithio â'r Leadership Alliance for the Care of Dying People er mwyn datblygu ffordd o wella gofal diwedd oes ar draws y system gyfan a chaiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cyhoeddi yn fuan.

21 Mae gan nyrsys a bydwragedd ddyletswydd broffesiynol i gymryd camau os bydd ganddynt bryderon am ddiogelwch neu les y sawl sydd yn eu gofal. Er mwyn eu helpu, gwnaethom ddiwygio ein canllawiau *"Codi pryderon: Canllawiau i nyrsys a bydwragedd".* Roeddem yn falch bod Helene Donnelly, nyrs a gododd bryderon am Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford, wedi ein helpu i

ail-lansio'r canllawiau. Erbyn mis Mawrth 2014, roedd y fideo ar wefan YouTube o'i chyflwyniad wedi'i wylio dros 3,800 o weithiau ac roedd y we-dudalen wedi'i chyrchu dros 23,000 o weithiau.

22 Gwnaethom gychwyn trafodaeth ehangach am broffesiynoldeb a rheoleiddio gan gynnal trafodaeth bord gron gydag amrywiaeth o randdeiliaid ym mis Mawrth 2014. Cafwyd araith gan Stephen Dorrell, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd ar y pryd, a lywiodd drafodaeth am broffesiynoldeb a rôl y rheoleiddiwr wrth gynnal safonau proffesiynol. Ymhlith y cyfranogwyr roedd arweinwyr ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, myfyrwyr ac addysgwyr, ynghyd ag unigolion â diddordeb mewn polisi a diddordeb academaidd. Nododd y drafodaeth yr angen i'r Cod a'r CNB gael proffil uwch ymhlith aelodau cofrestredig a myfyrwyr. Mae'r themâu a'r casgliadau yn llywio'r gwaith o ddiwygio'r Cod (gweler isod) a strategaeth bum mlynedd y Cyngor.

**Y Cod: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd**

23 Mae'r Cod yn nodi'r safonau sylfaenol y mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig gofrestredig eu cyrraedd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwragedd sicrhau bod gofal cleifion o'r pwys mwyaf iddynt, eu bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas. Ym mis Mehefin 2013, gwnaethom ddechrau'r gwaith o ddiwygio'r Cod er mwyn paratoi ar gyfer y rhaglen ailddilysu (gweler isod). Rydym hefyd yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Francis ac adolygiadau annibynnol pwysig eraill, gan gynnwys adroddiad Berwick ar ddiogelwch cleifion, *"A promise to learn - a commitment to act"* (2013). Rydym yn ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd a rhanddeiliaid er mwyn ceisio barn ar y newidiadau y dylem eu gwneud. Yn ystod 2014, byddwn yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r Cod, gyda'r nod o gytuno ar y cynnwys terfynol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Ailddilysu**

24 Ar hyn o bryd, rhaid i nyrsys a bydwragedd adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd. Gan adeiladu ar y broses hon a defnyddio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, bwriadwn gyflwyno system o ailddilysu er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr yn parhau i gyrraedd ein safonau. Ein nod yw cyflwyno hyn erbyn mis Rhagfyr 2015.

25 Ym mis Medi 2013, cymeradwyodd y Cyngor fodel arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad, ar gam cyntaf y rhaglen ailddilysu yn seiliedig ar y cylch adnewyddu tair blynedd sy'n bodoli eisoes. Mae'r model yn cynnig gofyniad i nyrsys a bydwragedd gael cadarnhad gan drydydd parti eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer yn ogystal â dangos eu bod yn defnyddio adborth gan gleifion, cydweithwyr ac eraill i wella eu safonau gofal.

26 Cawn gyngor arbenigol a sylwadau ar ein gwaith gan ein Grŵp Cynghori Strategol ar Ailddilysu, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid yn cynnwys

cynrychiolwyr o'r pedair gwlad, cyrff proffesiynol ac undebau, rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau, cyflogwyr, addysgwyr ac uwch ymarferwyr. Mae'r Grŵp hefyd yn rhoi sicrwydd bod canlyniadau a buddiannau'r rhaglen ailddilysu yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd.

27 Ers i'r model arfaethedig gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar gyfer ymgynghoriad, rydym wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid er mwyn ymhelaethu ar drefniadau ymarferol y model a phennu effaith bosibl y cynigion.

28 Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cael bron 10,000 o ymatebion i ran gyntaf ein hymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014. Cynhelir ail ran yr ymgynghoriad, i drafod ein canllawiau arfaethedig ar ailddilysu a fersiwn ddrafft o'r Cod diwygiedig, yn ystod haf 2014. Cynhelir yr ymgynghoriad gan gwmni ymchwil annibynnol a bydd y canlyniadau yn llywio cynnwys terfynol y Cod diwygiedig a'r canllawiau ar ailddilysu.

- Ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd er mwyn ceisio barn i'n helpu i ddatblygu'r model a'r modd y gall weithio yn ymarferol, yn ogystal â llywio'r gwaith o ddiwygio'r Cod.

- Cychwyn cyfres o uwch-gynadleddau ar ailddilysu ledled y DU er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ailddilysu a chael adborth ar ein cynigion gan nyrsys, bydwragedd, myfyrwyr, rheolwyr, cyflogwyr, cynrychiolwyr cyrff proffesiynol ac undebau, addysgwyr ac academyddion.

29 Mae ein gwe-dudalennau ar ailddilysu yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau a gwybodaeth er mwyn helpu pawb i ddeall ein cynigion, gweld sut mae ein gwaith yn datblygu a'r camau allweddol y mae angen i ni eu cyflawni ar hyd y daith. Ers eu lansio, mae'r tudalennu hyn wedi cael eu darllen dros 77,000 o weithiau.

30 Fel rhan o'n rhaglen ailddilysu, bydd ein gwaith yn 2014-2015 yn cynnwys ystyried ar y cyd â chyflogwyr ac eraill, effaith y model a'r modd rydym yn dadansoddi risg. Rydym ar y trywydd cywir i dreialu ein dull gweithredu yn ystod 2015 a chyflwyno'r rhaglen ailddilysu o ddiwedd 2015.

**Materion sy'n ymwneud â bydwreigiaeth**

31 Mae ein Pwyllgor Bydwreigiaeth yn parhau i roi sylwadau a chyngor arbenigol ar faterion ym maes bydwreigiaeth, gan gynnwys y broses o ddiwygio'r "*Safonau ar gyfer paratoi goruchwylwyr bydwragedd"*, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2014. Goruchwyliodd y Pwyllgor hefyd y broses o gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar

awdurdodau goruchwylio lleol, sy'n nodi canlyniadau ein gwaith monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan.

32 Nodir y broses o reoleiddio a goruchwylio gwaith bydwragedd mewn deddfwriaeth hirsefydledig. Rydym wedi comisiynu adolygiad annibynnol gan Gronfa'r Brenin o'r trefniadau presennol. Gwnaed hyn yn dilyn pryderon am y gwrthdaro posibl rhwng rheoleiddio a goruchwylio a nodwyd mewn adroddiad gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr, *Midwifery supervision and regulation: Recommendations for change* (2013). Bydd yr adolygiad yn ystyried sut i sicrhau bod y broses o reoleiddio bydwragedd yn parhau i fod yn effeithiol mewn lleoliadau gofal modern, a bod diogelu'r cyhoedd wrth wraidd y broses honno.

**Addasrwydd i ymarfer**

33 Mae diogelu’r cyhoedd rhag nyrsys a bydwragedd y gall eu haddasrwydd i ymarfer fod yn ddiffygiol yn agwedd bwysig ar ein rôl. Mae gennym y pŵer i atal neu gyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig yn y DU os yw'n achosi risg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae ein hadroddiad addasrwydd i ymarfer, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn egluro'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon am addasrwydd i ymarfer a godir gyda ni a chanlyniadau ein gwaith.

34 Dim ond nifer fach iawn o nyrsys a bydwragedd sy'n destun achosion o addasrwydd i ymarfer: 0.7 y cant o'r rhai sydd ar ein cofrestr, gyda llai na 0.2 y cant yn cael sancsiwn. Cynyddodd nifer y pryderon a godwyd gyda ni 14 y cant yn 2013-2014. Rydym yn parhau i fonitro hyn yn agos gan ystyried yn benodol y posibilrwydd y gall nifer yr atgyfeiriadau gynyddu wrth i ni barhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n gwaith.

**Rhaglen gwella addasrwydd i ymarfer**

35 Rydym yn parhau i geisio gwella pob agwedd ar ein prosesau addasrwydd i ymarfer ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y prosesau hyn. Ar hyn o bryd, caiff 78 y cant o'n hadnoddau eu gwario ym maes addasrwydd i ymarfer.

36 Mae angen newid deddfwriaethol sylweddol er mwyn moderneiddio ein prosesau fel y gallwn gwblhau achosion yn gynt. Gwnaethom groesawu ymrwymiad y Llywodraeth i gael gwared ar ein deddfwriaeth sydd wedi dyddio yn ei hymateb i adroddiad Francis. Rydym wedi ymwneud yn agos â gwaith Comisiwn y Gyfraith a chefnogwn y cynigion dilynol i foderneiddio'r ffordd y caiff gweithwyr iechyd proffesiynol eu rheoleiddio. Rydym yn siomedig nad yw hyn wedi dwyn ffrwyth eto a byddwn yn parhau i bwyso am fil newydd er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith allweddol hwn.

37 Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd er mwyn gwneud y newidiadau mwy cyfyngedig y gellir eu cyflawni o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno archwilwyr achosion o 2015, a

ddylai ein helpu i ddatrys achosion yn gynt a sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

38 Rydym hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer adnodd cyswllt rhanbarthol, yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed gennym yn ein hymateb i adroddiad Francis. Rydym wedi ceisio barn gan randdeiliaid er mwyn ein helpu i ystyried y ffordd orau o ddarparu cyswllt, arweiniad a chymorth cost-effeithiol ar draws pedair gwlad y DU. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa fuddiannau a gwerth y gallwn eu hychwanegu a beth y gallai cyswllt rhanbarthol ei gynnwys. Ein nod yw cyflwyno adnodd rhanbarthol o ddechrau 2015.

39 Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gymryd camau i ymdrin ag achosion yn fwy amserol a gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir gennym. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cynyddu nifer y gwrandawiadau a'r cyfarfodydd a gynhelir bob dydd i 30.
- Cwblhau mwy na 1500 o'n hachosion hynaf a mwyaf cymhleth.
- Gwella ymhellach ein cymorth, hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer aelodau a chadeiryddion paneli addasrwydd i ymarfer.
- Cyflwyno prosesau newydd ar ddechrau 2013 sy'n ein galluogi i gwblhau achosion drwy gytundeb: penderfyniad panel drwy gytundeb a thynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd. Rydym yn parhau i fireinio a gwella'r prosesau hyn, gan ddysgu oddi wrth ein hadolygiadau mewnol ein hunain yn ogystal ag adroddiad archwilio camau cychwynnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer 2013. Mae'r dulliau gweithredu hyn yn golygu y gallwn ddatrys achosion yn gynt ac osgoi cost gwrandawiad cyhoeddus llawn, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn diogelu'r cyhoedd, sef ein prif flaenoriaeth.

40 Yn 2012-2013, gwnaethom dderbyn grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd er mwyn ein helpu i wella perfformiad ym maes addasrwydd i ymarfer a sicrhau sefydlogrwydd ariannol. Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol yn pennu targedau clir i ymdrin ag achosion yn gynt a chytunwyd arnynt gyda'r Adran fel un o amodau'r grant. Disgwylir i'r targedau hyn gael eu cyflawni erbyn mis Rhagfyr 2014.

- **Cwblhau ymchwiliadau yn gynt**

  Ein dangosydd perfformiad allweddol yw cwblhau ymchwiliadau o fewn 12 mis. Gwnaethom bennu targed i gwblhau 90 y cant o ymchwiliadau o fewn 12 mis erbyn mis Mawrth 2014. Gwnaethom gyflawni 87 y cant o ymchwiliadau ym mis Mawrth, ychydig yn llai na'r targed, er i ni ei gyflawni neu ragori arno ar adegau yn ystod y flwyddyn. Y rheswm am hyn yw bod ein llwyth achosion yn cynnwys cymysgedd o hen achosion a rhai newydd. Ar gyfartaledd, yn ystod

2013-2014, gwnaethom gwblhau 87 y cant o ymchwiliadau mewn 12 mis, sy'n welliant sylweddol o gymharu â chyfartaledd o 68 y cant yn 2012-2013.

- **Cwblhau dyfarniadau yn gynt**

  Ein targed ar gyfer dyfarniadau yw gwella ein perfformiad er mwyn sicrhau, erbyn mis Rhagfyr 2014, y bydd 90 y cant o achosion yn cyrraedd diwrnod cyntaf gwrandawiad neu gyfarfod cam dyfarnu o fewn chwe mis i gwblhau'r ymchwiliad. Rydym yn mesur ein cynnydd drwy ragweld lefel y perfformiad y disgwyliwn ei chyrraedd bob mis yn seiliedig ar oedran y llwyth achosion. Yn ystod 2013-2014, gwnaethom gyflawni hyn mewn perthynas â 31 y cant o achosion, yn unol â'n rhagolygon yn gyffredinol, a hynny am fod nifer fawr o achosion hŷn yn y llwyth achosion. Rydym yn hyderus ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed ym mis Rhagfyr 2014.

41 Rydym hefyd wedi pennu targedau heriol i sicrhau ein bod yn diogelu'r cyhoedd yn gynt yn yr achosion mwyaf difrifol.

- **Diogelu'r cyhoedd yn gyflym**

  Ein targed yw cyflwyno 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod ar ôl i achos ddod i law lle mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn diogelu'r cyhoedd. Gwnaethom lwyddo i ragori ar y targed yn gyffredinol gan gyflawni cyfartaledd o 84 y cant ar gyfer y flwyddyn.

42 Mae gwella ansawdd ein gwasanaeth cwsmeriaid i bawb sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer yn bwysig i ni. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Darparu hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid i fwy na 100 o staff cyfwerth ag amser llawn i ddechrau ac rydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn ehangach yn ystod 2014–2015.

- Ei gwneud yn haws i gwsmeriaid roi adborth drwy eu galluogi i gwblhau ffurflenni ar-lein. Dengys dadansoddiad cychwynnol o adborth gan gwsmeriaid fwy o foddhad ar draws y meysydd a fesurwyd gan ein harolwg.

- Cyflawni ein haddewid gwasanaeth cwsmeriaid i hysbysu'r sawl sy'n rhan o achosion addasrwydd i ymarfer am ein penderfyniadau o fewn pum diwrnod gwaith mewn 99 y cant o achosion.

- Gwella profiad tystion sy'n rhan o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer, drwy wybodaeth, cymorth a chyfleusterau gwell i dystion. Ein nod yw adeiladu ar hyn drwy recriwtio a hyfforddi tîm cymorth tystion erbyn haf 2014.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

43 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ein hadroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sydd ar gael ar ein gwefan, yn disgrifio ein cynnydd tuag at gyflawni ein strategaeth a'n hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae grŵp llywio cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth, yn darparu goruchwyliaeth a ffocws ar gyfer y gwaith hwn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Datblygu pecyn cymorth dadansoddi cydraddoldeb er mwyn ein helpu i nodi a lleihau neu ddileu'r effeithiau posibl ar grwpiau gwahanol o bobl ym mhob rhan o'n cylch datblygu polisïau a'n fframwaith rhaglenni. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein holiadur monitro amrywiaeth fel cam cyntaf tuag at wella ansawdd y data cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddelir gennym.

- Cynnal gwaith dadansoddi cydraddoldeb mewn perthynas â phrosesau recriwtio allweddol, ein polisi diogelu data diwygiedig, polisi adolygu cyflogau a graddfeydd staff a mentrau addasrwydd i ymarfer newydd arfaethedig, fel cyflwyno archwilwyr achosion.

- Cynnal cyrsiau hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor ac aelodau paneli addasrwydd i ymarfer.

- Adolygu ein polisïau adnoddau dynol, gan gynnwys absenoldeb tosturiol ac arbennig ar gyfer staff, disgyblu a chwynion, bwlio ac aflonyddu, a gallu.

- Meithrin partneriaethau cryfach â sefydliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth allanol er mwyn nodi a rhannu arfer da, gan gynnwys cael budd o aelodaeth rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall.

**Nod 2 – Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.**

44 Yn ein hymateb i adroddiad Francis, gwnaethom ymrwymo i godi ein proffil gyda chleifion a'r cyhoedd, gweithio'n agosach gyda rheoleiddwyr eraill ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chyflogwyr a nyrsys a bydwragedd.

45 Mae'r gwaith a wnaed gennym i ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â'r holl grwpiau hyn, ar draws y pedair gwlad, er mwyn llywio'r broses o ddatblygu ein model ailddilysu ac adolygu'r Cod, yn enghraifft o hyn. Rydym wedi cymryd rhan mewn tua 80 o ddigwyddiadau ac wedi defnyddio dulliau cyfathrebu print, digidol a chyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hystyried yn llawn, rydym wedi defnyddio arolygon barn ac rydym yn cynnal gweithdai ystyriol gyda chleifion a grwpiau na chlywir ganddynt yn aml. Rydym yn gweithio'n agos

gyda'n rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff proffesiynol, undebau llafur, cyflogwyr a rheoleiddwyr systemau, er mwyn cynnwys eu cynulleidfaoedd a'u haelodau, yn ogystal â gweithio gyda chyfarwyddwyr adnoddau dynol a chyfarwyddwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn y GIG a'r sector annibynnol. Rydym hefyd yn ymgysylltu â nyrsys a bydwragedd rheng flaen gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anos eu cyrraedd fel nyrsys practis, nyrsys cymunedol, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys asiantaeth.

**Y cyhoedd a chleifion**

46 Mae ein Fforwm Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio mwy ar gleifion a defnyddwyr. Mae'r fforwm yn cynnwys dros gant o grwpiau cleifion, eiriolwyr cleifion ac elusennau iechyd. Mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae wedi helpu i lywio agweddau amrywiol ar ein gwaith fel ein hymateb i adroddiad Francis, datblygu ein model ailddilysu a chynnwys y cyhoedd mewn addysg. Bwriadwn gynnal digwyddiadau fforwm yn yr Alban a byddwn yn ymgysylltu â grwpiau cleifion ac elusennau iechyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn ystod 2014.

47 Ymhlith camau eraill a gymerwyd i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd a'u cynnwys yn ein gwaith roedd:

- Defnyddio iaith glir yn ein cyhoeddiadau. Rydym wedi hyfforddi aelodau allweddol o staff ac wedi ennill cymeradwyaeth 'nod crisial' ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg pwysig, gan gynnwys ein canllawiau *'Codi Pryderon'* a thaflenni i'r cyhoedd am ein gwaith.

- Dosbarthu taflenni newydd am ein gwaith gan gynnwys sut i atgyfeirio achosion atom a'n rôl ym maes addysg, a luniwyd gyda chymorth gan y Fforwm.

- Cyhoeddi adolygiad blynyddol er mwyn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn fwy amlwg ac agored i gleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid fel y gallant asesu'r cynnydd rydym yn ei wneud.

- Ei gwneud yn haws i gleifion a'r cyhoedd weld sut rydym yn ymateb i'r dysgu yn adroddiad Francis ac olrhain cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau ar ein gwe-dudalen ddynodedig ar adroddiad Francis, sydd wedi'i darllen dros 43,000 o weithiau.

- Mewn partneriaeth â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a Grŵp Elusennau Richmond (clymblaid o 10 elusen flaenllaw ym maes iechyd a gofal cymdeithasol), cynnal digwyddiad ym mis Medi 2013 yn ystyried sut y gall sefydliadau a rheoleiddwyr iechyd wella'r ffordd y caiff cwynion eu rheoli a sut y gellir defnyddio adborth cleifion yn effeithiol.

- Anfon e-gylchlythyrau misol ar ein gwaith gan gynnwys canlyniadau addasrwydd i ymarfer at tua 17,000 o gleifion ac aelodau o'r cyhoedd. Anfonir cylchlythyrau tebyg at 19,000 o gyflogwyr a rheolwyr, dros 200,000 o nyrsys a bydwragedd, a 29,000 o addysgwyr a myfyrwyr.

- Ymateb i 403 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a 297 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan gyfraith diogelu data.

- Ailddatblygu ein gwefan: ein nod yw lansio ein gwefan well ar ddiwedd 2014. Rydym yn cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn y broses ddylunio a threialu er mwyn helpu i sicrhau bod y safle yn haws i'w ddefnyddio ac yn diwallu eu hanghenion, yn ogystal ag anghenion nyrsys, bydwragedd, myfyrwyr, addysgwyr a chyflogwyr.

**Rheoleiddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill**

48 Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff proffesiynol ac undebau llafur ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad at ein gwaith. Rydym yn croesawu'r adborth cadarnhaol a gafwyd ganddynt ar natur adeiladol ein cydberthnasau â hwy. Gwnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau gwrando gyda rhanddeiliaid er mwyn helpu i lywio agweddau allweddol ar ein gwaith.

49 Rydym yn gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu ac yn cydweithio ag uwch weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth a rheoleiddwyr eraill. Er enghraifft:

- Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal a gweithio ar brotocol gweithredol i ategu hyn. Rydym yn mynd ar drywydd mentrau tebyg gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Healthcare Improvement Scotland, ac Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd Gogledd Iwerddon.

- Cydweithio â’r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar ganllawiau yn ymwneud â’r ddyletswydd gonestrwydd a rhoi gwybod am 'ddigwyddiadau fu bron â digwydd' fel y'u nodir yn *Hard truths* (2013), ymateb y llywodraeth i adroddiad Francis.

- Ymweld â'r 11 o ymddiriedolaethau a osodwyd dan fesurau arbennig yn dilyn yr adolygiad o farwolaethau a gynhaliwyd gan Syr Bruce Keogh yn 2013. Gwnaeth y rhain helpu i ddatblygu deialog adeiladol â chyfarwyddwyr nyrsio ar draws ein swyddogaethau rheoleiddio gan gynnwys sicrhau ansawdd addysg, goruchwylio bydwragedd, ein model ailddilysu ac atgyfeirio achosion addasrwydd i ymarfer atom. Yn Lloegr, rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Meithrin Ymddiriedaeth er mwyn ymgysylltu â chyfarwyddwyr nyrsio yn yr ymddiriedolaethau y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt.

- Mynychu'r holl Grwpiau Goruchwylio Ansawdd rhanbarthol yn Lloegr, gan ychwanegu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o wybodaeth am ansawdd a risg a sicrhau ein bod yn fwy amlwg i arweinwyr nyrsio ar lawr gwlad.

- Chwarae rôl lawn a rhagweithiol fel aelod o Gynghrair Rheoleiddwyr Iechyd y DU ar Ewrop (AURE) sy'n dod â'r naw rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol ynghyd er mwyn dylanwadu ar bolisi'r Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn paratoi ar gyfer trosi'r Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol gan gynnwys cydweithio â rhanddeiliaid ar lefel y DU a'r UE.

50 Fel rheoleiddiwr yn y DU, rydym yn effro i'r dulliau gwahanol o ymdrin â gofal iechyd ar draws y pedair gwlad a goblygiadau ein gwaith. Mae ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid ym mhob un o'r pedair gwlad yn hollbwysig i ni. Rydym wedi gwneud y canlynol:

- Cydweithio â'r Prif Swyddog Nyrsio yn yr Alban a bellach rydym wedi cynnull grŵp o uwch-randdeiliaid sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rhoi sylwadau a chyngor arbenigol i ni.

- Cymryd rhan yn nigwyddiad blynyddol Llywodraeth yr Alban ar gyfer rheoleiddwyr iechyd. Mae hwn yn gyfle gwych i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd o'r Alban.

- Cymryd rhan mewn trafodaethau am drefniadau cydweithio ag aelodau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Ombwdsmon Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

- Cynnal digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban a derbyniadau seneddol ar y cyd ym mhob un o'r gweinyddiaethau.

**Nod 3 - Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.**

51 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gennym yr adnoddau i wella perfformiad.

**Staff**

52 Mae mynd i'r afael â throsiant staff uchel yn flaenoriaeth ac mae'r Cyngor yn monitro cynnydd drwy ddangosydd perfformiad allweddol. Pennodd y Cyngor darged i leihau'r gyfradd trosiant staff i 23 y cant erbyn mis Mawrth 2014. Er na lwyddwyd i gyflawni'r targed hwn, gwelsom ostyngiad o 33 y cant yn 2012-2013 i 26 y cant yn 2013-2014. Rydym yn parhau i weithio tuag at welliannau pellach, drwy wella ein dealltwriaeth a'n defnydd o ddata gweithlu gan gynnwys pam bod

staff yn ymuno â'r sefydliad neu'n gadael. Mae ein hymdrechion recriwtio'n dod yn fwyfwy llwyddiannus, gyda chyfradd lwyddo o lenwi 9 allan o 10 swydd ar yr ymgais gyntaf.

53 Ymhlith y camau eraill a gymerwyd er mwyn ein helpu i greu gweithlu mwy sefydlog roedd:

- Cynnal arolwg staff a rhannu'r canlyniadau â staff.

  - Ein blaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ein diben statudol craidd i ddiogelu'r cyhoedd. Roedd yn galonogol nodi bod 94 y cant o staff wedi dweud eu bod yn deall ein rôl; roedd 93 y cant yn deall sut roeddent yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein nodau ac roedd 85 y cant yn poeni am ddyfodol y CNB. Nododd yr arolwg hefyd amrywiaeth o bryderon staff.

  - Gwnaethom ddefnyddio'r canlyniadau i greu cynllun gweithredu corfforaethol a chynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'n pum cyfarwyddiaeth a gwnaethom gyflwyno adroddiad ar gynnydd yn ddiweddar i bob aelod o staff. Mae pob un o'r cynlluniau'n mynd i'r afael â meysydd i'w datblygu drwy gynnwys ac ymgysylltu â staff yn lleol er mwyn gwella canlyniadau.

  - Byddwn yn lansio arolwg arall i bob aelod o staff yn ystod Mehefin 2014, er mwyn mesur cynnydd a diweddaru cynlluniau gweithredu lleol fel rhan o'n hymdrechion i gyflawni gwelliant parhaus.

- Adnewyddu dulliau cyfathrebu â staff mewnol, datblygu gwerthoedd ac ymddygiadau newydd a chyflwyno rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr. Mae'r ymddygiadau newydd yn cael eu cynnwys mewn proses adolygu perfformiad a datblygiad staff ddiwygiedig o fis Ebrill 2014.

- Adolygu a diwygio ein pecyn gwobrwyo i staff, gan gynnwys cysoni gwyliau blynyddol. Yn dilyn adolygiad annibynnol, gwnaethom gyflwyno strwythur cyflogau a graddio newydd o 1 Ionawr 2014, yn seiliedig ar greu teuluoedd swyddi yn ôl maes proffesiynol er mwyn gwella'r modd rydym yn cefnogi unigolion i gamu ymlaen mewn gyrfa ac yn rheoli talent ac olyniaeth.

- Mynd i'r afael â dysgu a datblygu: rydym yn ymrwymedig i ddatblygu staff a gwnaethom gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i staff, gan gynnwys e-ddysgu, cyrsiau hyfforddiant a seminarau polisi. Gwnaethom adnewyddu digwyddiadau sefydlu er mwyn croesawu aelodau newydd o staff. Defnyddiwyd cynhadledd ar gyfer pob aelod o staff ym mis Ionawr 2014 i asesu'r cynnydd a wnaed a chanolbwyntio ar flaenoriaethau sefydliadol ar gyfer y dyfodol. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod y cyfraniadau a wnaed gan dimau ac unigolion o bob rhan o'n gweithlu amrywiol.

- Cyflwyno cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai staff ymuno ag ef ar sail wirfoddol o fis Hydref 2013. Gwnaethom gyflawni'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cynllun awto-gofrestru o fis Ebrill 2014, gan alluogi staff i gael budd o ddarpariaeth bensiwn fforddiadwy. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol a lleihau costau a risg, gwnaethom gau ein cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig presennol i gyflogeion a ymunodd â'r CNB ar ôl 1 Tachwedd 2013.

- Cynnwys proses cynllunio gweithlu yn y cylch cynllunio busnes blynyddol, er mwyn sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r gallu i gyflawni ein cynllun corfforaethol.

54 Rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud ac yn ystod 2014-2015 byddwn yn cyflwyno rhaglen e-recriwtio; yn treialu setiau dysgu gweithredol fel rhan o'n hymgais i ddod yn sefydliad dysgu; ac yn hyfforddi ein rheolwyr mewn technegau hyfforddi er mwyn gwella perfformiad a datblygiad staff.

**Systemau TGCh**

55 Nod ein strategaeth TGCh yw sefydlogi ac yna drawsnewid ein systemau er mwyn cefnogi ein swyddogaethau rheoleiddio yn fwy effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gwblhau nifer o raglenni uwchraddio seilwaith a gynlluniwyd mewn perthynas â systemau swyddfa, teleffoni a rheoli dogfennau er mwyn rhoi llwyfan mwy sefydlog i gyflawni newid sefydliadol.

56 Wrth i ni ddechrau ar gam trawsnewid y strategaeth, rydym wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen TGCh sy'n cynnwys y cyfarwyddwyr a dau gynghorydd allanol annibynnol er mwyn goruchwylio'r gwaith. Bydd y gwaith strategol o uwchraddio'r system Gofrestru (WISER) yn dechrau yn 2014 gyda'r nod o'i gwblhau yn 2016. Mae'r adnoddau ar-lein yn cael eu hymestyn yn ystod 2014, yn gyntaf er mwyn galluogi nyrsys a bydwragedd i adnewyddu eu cofrestriad ar-lein yn ystod 2014 ac yn ddiweddarach er mwyn ychwanegu cyfleusterau i alluogi unigolion o dramor i wneud cais i gofrestru ar-lein o ddiwedd 2014. Bydd y strategaeth TGCh hefyd yn arwain at welliannau i'n prosesau rhannu a dadansoddi data erbyn 2016 yn unol â'r argymhellion yn adroddiad Francis.

**Defnydd effeithiol o adnoddau**

57 Gwnaethom ailsefydlu ein Bwrdd Effeithlonrwydd Corfforaethol er mwyn goruchwylio a monitro gwelliannau mewn effeithlonrwydd ariannol ar draws y CNB a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

58 Mae gwaith y Bwrdd Effeithlonrwydd Corfforaethol yn cynnwys dull mwy strategol o gaffael a rheoli contractau, gan ganolbwyntio yn gyntaf ar ble y gellir sicrhau'r buddiannau ariannol mwyaf. Pennodd y Strategaeth Ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn 2012 darged i gyflawni £25 miliwn o arbedion dros gyfnod o dair

blynedd ac rydym yn parhau ar y trywydd cywir i'w cyflawni. Mae'r gyllideb ar gyfer 2014-2015 yn cynnwys arbedion targed pellach.

**Sicrhau gwelliant parhaus**

59 Ers i'r Cyngor ddechrau ar ei waith ym mis Mai 2013, mae wedi gweithredu mewn modd strategol, wedi symleiddio strwythurau llywodraethu ac wedi datganoli'r cyfrifoldeb am reolaeth weithredol i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, gyda chymorth gan Fwrdd Gweithredol. Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol wedi gwella'r ffocws ar asesu perfformiad a risg gan ddefnyddio fframwaith rheoli risg diwygiedig a nifer lai o ddangosyddion allweddol, lefel uwch. Mae'r Cyngor yn craffu ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol a'r targedau hyn ac yn trafod camau i fynd i'r afael â risgiau ym mhob cyfarfod cyhoeddus.

60 Gwnaethom fabwysiadu Strategaeth Sicrhau Ansawdd Gorfforaethol newydd, wedi'i hategu gan dîm ymroddedig. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dri chanlyniad:

- Gweithredu fframwaith rheoli perfformiad ac ansawdd sy'n seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws y sefydliad.

- Cynnal rhaglen flynyddol o adolygiadau sicrwydd ansawdd corfforaethol.

- Sefydlu diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Rydym wedi rhoi prosesau systematig ar waith er mwyn nodi dysgu sefydliadol a sicrhau gwelliannau, gan ddechrau gydag adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac ymestyn i gwynion, adolygiadau sicrwydd ansawdd, archwiliadau mewnol neu adroddiadau allanol.

61 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi datblygu ei feddylfryd o ran ein cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, gwyddom fod angen i ni ymdrin â'n gwaith mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar dystiolaeth a gwybodaeth, drwy wella ein gallu i ddefnyddio ein data ein hunain, a'r data y mae eraill yn eu rhannu â ni. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein hamcanion corfforaethol ar gyfer 2014-2017 ac mae'n llywio'r broses o ddatblygu strategaeth bum mlynedd y Cyngor ar gyfer 2015-2020. Byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd, cleifion, partneriaid a rhanddeiliaid ar gynnwys y strategaeth hon yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Rheoli ein proses drawsnewid**

62 Mae ein Bwrdd Portffolio Rheoli Newid wedi parhau i gydgysylltu'r holl weithgareddau gwella sefydliadol er mwyn meithrin ein capasiti a'n gallu i ddod yn rheoleiddiwr mwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- Goruchwylio'r gwaith parhaus o gyflawni ein cynlluniau ar gyfer gwella prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer - a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn - fel cofrestriadau ar-lein a'r prosiect i ailddatblygu'r wefan.

- Cyflwyno "*Llunio'r Dyfodol*", sef cylchlythyr mewnol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y newidiadau mawr sy'n digwydd a'r cyfraniad y gallant ei wneud.

- Rhoi dull cryfach a mwy systematig o reoli rhaglenni a phrosiectau ar waith ar draws y sefydliad.

- Goruchwylio'r rhaglen TGCh sylweddol i wella ein systemau a'n seilwaith ffôn er mwyn sefydlogi ac uwchraddio systemau corfforaethol allweddol. Rydym yn parhau i wneud cynnydd wrth roi ein cynllun gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer diogelu gwybodaeth ar waith.

- Olrhain ein cynnydd yn barhaus yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn 2012, gan gynnwys drwy asesiadau a gynhaliwyd gan ein tîm sicrhau ansawdd corfforaethol. Byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol er mwyn canfod a ydym wedi cyflawni'r argymhellion yn ystod 2015.

63 Mae gwaith y Bwrdd ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf wedi canolbwyntio ar gyflawni argymhellion yr Adolygiad Strategol. Rydym bellach yn ail-lunio ei waith ac yn datblygu rhaglen fwy rhagweithiol er mwyn helpu i fynd ar drywydd ein cynllun corfforaethol tair blynedd a'r themâu a nodir yn strategaeth bum mlynedd y Cyngor sy'n datblygu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu'n rheoleiddiwr mwy effeithiol ac effeithlon sy'n haeddu hyder y cyhoedd, y sawl a reoleiddir gennym a rhanddeiliaid eraill.

## Cynllun strategol 2014-2017

64 Mae ein cynllun corfforaethol strategol ar gyfer 2014-2017 yn seiliedig ar ein tri nod. Mae'n nodi'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf a sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant.

**Nod 1: Diogelu'r cyhoedd**

**Amcan 1** Byddwn yn diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy gadw cofrestr gywir a hygyrch o bob nyrs a bydwraig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru ac y mae'n ofynnol iddynt ddangos eu bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer.

**Amcan 2** Byddwn yn pennu safonau addysg ac ymarfer hygyrch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysg ar gyfer nyrsys a bydwragedd ac ansawdd goruchwylio bydwragedd fel y gallwn fod yn sicr bod pawb sydd ar ein cofrestr yn addas i ymarfer.

**Amcan 3** Byddwn yn cymryd camau buan a theg i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safon y gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.

**Nod 2: Cydberthnasau agored ac effeithiol**

**Amcan 4** Byddwn yn cynnal cydberthnasau rheoleiddio agored ac effeithiol â chleifion a'r cyhoedd, rheoleiddwyr eraill, cyflogwyr, seneddwyr a'r proffesiynau. Bydd hyn yn ein helpu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd er mwyn sicrhau mai gofal pobl sydd fwyaf pwysig iddynt, eu bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas.

**Amcan 5** Byddwn yn datblygu ac yn cynnal prosesau cyfathrebu adeiladol ac ymatebol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael digon o wybodaeth am y safonau gofal y dylent eu disgwyl gan nyrsys a bydwragedd, a'n rôl pan na chyrhaeddir y safonau.

**Amcan 6** Byddwn yn gwella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill, ac yn rhannu'r hyn a wyddom gyda rheoleiddwyr eraill a sefydliadau partner perthnasol er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd.

**Nod 3: Gwasanaethau, systemau a staff**

**Amcan 7** Byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau a darparu ein gwasanaethau fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr.

**Amcan 8** Byddwn yn datblygu polisïau effeithiol, gwasanaethau effeithlon a phrosesau llywodraethu sy'n helpu ein staff i gyflawni ein holl swyddogaethau.

**Amcan 9** Byddwn yn meithrin diwylliant agored sy'n cynnwys ac yn grymuso staff i berfformio hyd eithaf eu gallu ac sy'n annog dysgu a gwella.

65 Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd drwy gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd yn effeithiol. Dros y tair blynedd nesaf, ein nod fydd gwneud y canlynol:

- Parhau i wella ein prosesau addasrwydd i ymarfer.
- Atgyfnerthu ymhellach ein prosesau cofrestru, cynnig mwy o wasanaethau ar-lein a pharatoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil deddfwriaeth yr UE.
- Gweithredu model er mwyn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn parhau i fod yn addas i ymarfer.
- Cyflawni strategaeth ymgysylltu gadarn, gan gynnwys meithrin ein cysylltiadau â chyrff sy'n cynrychioli cleifion a'r cyhoedd, nyrsys, bydwragedd a chyflogwyr ymhellach.
- Gwella ein systemau TGCh ymhellach.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor hwy.

66 Yn ystod 2014, byddwn yn llunio ein strategaeth bum mlynedd ar gyfer 2015-2020 a fydd yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a'r ffordd y byddwn yn parhau i ddatblygu'n rheoleiddiwr effeithiol y gellir ymddiried ynddo.

## Adolygiad ariannol

67 Roedd yr adnoddau net sy'n mynd allan ar gyfer y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £5.397 miliwn (2012–2013: adnoddau net sy'n dod i mewn £10.089 miliwn).

68 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd incwm o £65.193 miliwn (2012–2013: £73.355 miliwn) a oedd yn cynnwys incwm ffioedd gwerth £62.772 miliwn (2012–2013: £52.080 miliwn), grant o £1.438 miliwn gan yr Adran Iechyd (2012–2013: incwm grantiau gwerth £20 miliwn) ac incwm buddsoddiadau gwerth £0.983 miliwn (2012–2013: £1.275 miliwn).

69 Mae'r grant o £1.438 miliwn yn cynrychioli arian gan yr Adran Iechyd i gefnogi gwelliannau i'r ffordd rydym yn asesu ac yn prosesu ceisiadau i ymuno â'r gofrestr gan ymgeiswyr o dramor. Prif ddiben yr arian grant ar gyfer 2013-2014 oedd cefnogi archwiliad hanesyddol o gofrestriadau o dramor a'r broses o gyflwyno system electronig i ddilysu manylion personol ymgeiswyr o dramor. Mae ail gais am grant yn cael ei wneud ar gyfer 2014-2015 er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhoi profion cymhwysedd ar gyfer unigolion o dramor sy'n gwneud cais i gofrestru ar waith.

70 Rhoddodd y grant o £20 miliwn yn 2012–2013 adnoddau ariannol ychwanegol i helpu i gyflawni dangosydd perfformiad allweddol y CNB o ran dyfarnu Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014; clirio'r ôl-groniad hanesyddol o achosion erbyn mis Rhagfyr 2014; a chyrraedd y lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Talwyd y grant ym mis Ionawr 2013 a chafodd ei gydnabod yn llawn fel refeniw cyfyngedig yn 2012-2013. Caiff y grant ei ryddhau mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn lleihau'n unol â hynny bob mis, gyda'r swm terfynol yn cael ei ryddhau ym mis Rhagfyr 2015.

71 Yn ystod y flwyddyn gwariwyd cyfanswm o £70.590 miliwn (2012–2013: £63.266 miliwn). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodyn 10 i'r cyfrifon.

72 Mae'r cronfeydd wrth gefn gwerth £52.868 miliwn ar 31 Mawrth 2014 yn cynnwys gwerth prydles swyddfeydd y CNB yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnydd cyfyngedig. Ailbrisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £17.185 miliwn.

73 Caiff ein gwariant ei lywio'n bennaf gan faint a chymhlethdod ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi cynyddu'n sylweddol. Yn ystod haf 2012, ymgynghorodd y Cyngor ar gynnig i gynyddu'r ffi gofrestru i £120, sef y swm oedd yn ofynnol gan bob cofrestrydd er mwyn talu cost rheoleiddio. O ganlyniad i dderbyn grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd,

gwnaethom lwyddo i gyfyngu'r cynnydd yn y ffi i £100 am ddwy flynedd, yn weithredol o 1 Chwefror 2013.

74 Caiff lefel y ffi gofrestru ei hadolygu bob blwyddyn gan y Cyngor. Mae nifer a chymhlethdod yr achosion addasrwydd i ymarfer a atgyfeirir wedi parhau i gynyddu, ynghyd â'r angen i fuddsoddi yn ein hymrwymiadau rheoleiddio eraill. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ac arbedion a wnaed gennym, a heb unrhyw siawns uniongyrchol o newid deddfwriaethol, mai cost rheoleiddio yw £120 fesul cofrestrydd o hyd. Felly, ym mis Mawrth 2014, penderfynodd y Cyngor gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r ffi o £100 i £120, yn weithredol o ddechrau 2015. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn llywio penderfyniad terfynol y Cyngor ar ddiwedd 2014.

75 Deallwn y caledi sylweddol y mae nyrsys a bydwragedd yn ei wynebu wrth wneud cyfandaliad yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Rydym wedi gwrando ar nyrsys, bydwragedd a'u cyrff proffesiynol, ynghyd â'r Pwyllgor Iechyd, ac rydym wedi ymrwymo i gyflwyno taliadau graddol erbyn diwedd 2016 er mwyn ei gwneud yn haws i nyrsys a bydwragedd dalu'r ffi. Yn ogystal â gwneud newidiadau angenrheidiol i'n system a'n prosesau TG, rydym yn ceisio newid ein rheolau er mwyn sicrhau bod pawb sydd am wneud taliadau graddol yn gallu gwneud hynny. Rydym hefyd yn parhau i annog nyrsys a bydwragedd i hawlio'r rhyddhad treth y mae ganddynt yr hawl i'w gael, gan mai dim ond 30 y cant ohonynt sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd.

76 Ar 31 Mawrth 2014, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â CThEM mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr Addasrwydd i Ymarfer. Roedd hyn yn dilyn dyfarniad gan CThEM ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr Addasrwydd i Ymarfer y CNB yn ddeiliaid swydd ac felly'n gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol, ond ei fod yn ystyried eu bod yn hunangyflogedig. Nid yw swm yr ad-daliad posibl wedi'i gadarnhau eto ac felly nid yw wedi'i ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

77 Mae gan y CNB bolisi cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg ar waith ers mis Medi 2012, sy'n darparu y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol y risgiau a wynebir gan y CNB, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Cronfeydd rhydd wrth gefn yw'r rhan honno o gronfeydd digyfyngiad elusen sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, hynny yw, heb gynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.

78 O dan bolisi'r CNB ar gronfeydd wrth gefn, hyd at fis Medi 2012 roedd yn ofynnol i gronfeydd rhydd wrth gefn gyfateb i wariant gweithredu wedi'i gyllidebu dros dri mis o leiaf, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn yn seiliedig ar y prisiad diweddaraf o'r cynllun pensiwn.

79 Caiff y polisi ar gronfeydd wrth gefn ei adolygu bob blwyddyn gan y Cyngor fel rhan o'r broses cynllunio busnes ac fel elfen graidd o strategaeth ariannol y CNB. Mae'r Cyngor yn ystyried yr asesiad diweddaraf a'r gwaith o fesur y prif risgiau, ac yn cytuno ar amrediad priodol y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal oddi fewn iddo. Mae'r fethodoleg hon yn arwain at ofyniad is mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn na'r hyn a nodwyd yn y polisi blaenorol.

80 Ym mis Mawrth 2014, adolygodd y Cyngor y risgiau sy'n sail i'r polisi ar gronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylai'r amrediad targed o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd barhau o fewn amrediad o £10 miliwn i £25 miliwn.

81 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon i gyflawni blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio'r CNB os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.

82 Mae strategaeth ariannol y Cyngor yn seiliedig yn rhannol ar yr amcanestyniad y dylai cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd gael eu hadfer i lefel ofynnol o £10 miliwn erbyn mis Ionawr 2016, sef un o amodau grant yr Adran Iechyd o £20 miliwn.

83 Roedd cronfeydd rhydd wrth gefn y CNB yn werth £17.115 miliwn ar 31 Mawrth 2014 (£15.276 miliwn ar 31 Mawrth 2013) ar ôl cynnwys gwerth llyfr net asedau sefydlog o £23.753 miliwn (2012–2013: £20.391 miliwn), ac roedd y cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael yn rhydd ar 31 Mawrth 2014 (heb gynnwys cyfran amcangyfrifedig y CNB o'r diffyg pensiwn) yn werth £7.6 miliwn (£7.4 miliwn ar 31 Mawrth 2013).

84 Nid yw'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd yn unol â'n polisi ar gronfeydd wrth gefn, sef cynnal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad o £10 miliwn i £25 miliwn. Yn ôl canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gellir lleihau cronfeydd rhydd wrth gefn yn y byrdymor o'r lefel sy'n ofynnol o dan y polisi, ond dim ond mewn amgylchiadau lle ceir cynllun eglur a chadarn i'w hadfer i'r lefel ofynnol. Bydd y strategaeth ariannol y cytunwyd arni gan y Cyngor a grant yr Adran Iechyd o £20 miliwn yn adfer y cronfeydd wrth gefn i'r lefel ofynnol.

85 Mae'r Cyngor yn monitro sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn yn agos drwy ddangosydd perfformiad allweddol ac mae wedi pennu targed dros dro ar gyfer cronfeydd wrth gefn o £7.4 miliwn erbyn 31 Mawrth 2014. Fel y nodwyd uchod, cyflawnwyd y targed hwn: Roedd y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd yn werth £7.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn golygu ei bod ar y trywydd cywir i

gyflawni'r ymrwymiad hwn i'r Adran Iechyd, yn ogystal â'r targed addasrwydd i ymarfer a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn

## Polisi buddsoddi

86 Mae gan y CNB y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd dros ben fel y gwêl yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae gan y CNB bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud.

87 Cedwir cronfeydd y CNB yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pump o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2013–2014 cynhyrchwyd refeniw o £0.983 miliwn o'r buddsoddiadau (2012–2013: £1.275 miliwn).

## Asedau sefydlog

88 Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 13 i'r cyfrifon. Cost yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £2.521 miliwn.

89 Fel rhan o nod y CNB i ddod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol modern, cymeradwyodd y Cyngor fuddsoddiad o £10 miliwn yn 2012 er mwyn datblygu technoleg gwybodaeth. Yn ystod 2013-2014, cwblhawyd y cam cyntaf, gan gynnwys uwchraddio'r seilwaith sylfaenol, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a meddalwedd. Darparodd hyn y llwyfan ar gyfer yr ail gam mwy trawsnewidiol o 2014-2015.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

## Adroddiad cydnabyddiaeth

90 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

91 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CNB ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr y CNB. Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2013-2014 oedd Mark Addison CB. Ar 1 Mai 2013, ailgyfansoddwyd y Cyngor a chafodd ei leihau o 14 i 12 o aelodau. Mae Cadeirydd y Cyngor wedi penodi dau aelod i weithredu fel Dirprwy-Gadeiryddion.

92 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol o £12,000 yn seiliedig ar y gofyniad i aelodau dreulio dau neu dri diwrnod y mis ar fusnes y CNB. Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar fusnes y CNB. Telir lwfans presenoldeb o £260 y dydd ar gyfer gweithgarwch hyfforddi a sefydlu cyn dechrau'r penodiad.

93 Mae'n ofyniad cyfreithiol i Baneli Apeliadau Cofrestru gael eu cadeirio gan aelod o'r Cyngor. Caiff aelodau'r cyngor lwfans dyddiol o £340, a ffi ddarllen ddyddiol o £290 lle y bo'n ofynnol, am gyflawni'r rôl hon. Yn ystod 2013-2014, talwyd cyfanswm o £26,485 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor am gadeirio paneli apeliadau.

94 Talwyd cyfanswm o £207,485 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2013–2014 (2012–2013: £198,871). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y lwfansau gwerth £26,485 am gadeirio apeliadau cofrestru y cyfeiriwyd atynt uchod. Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalennau 27-28. Ni wnaed unrhyw daliadau[1] arbennig i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2013-2014.

95 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y CNB i aelodau.

96 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r CNB yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2013–2014, darparwyd £38,551 ar gyfer yr

[1] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

atebolrwydd hwn i dalu treth mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2012–2013: £26,000). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, gan fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei baratoi yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

97 Mae'r treuliau lle mae atebolrwydd i dalu treth wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol.

| **Aelodau'r Cyngor** | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2013–2014** (£) | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2012 – 2013** (£) | **Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2013–2014** (£) | **Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2012–2013** (£) |
|---|---|---|---|---|
| Mr M Addison – Cadeirydd[2] | **48,000** | 26,800 | **836** | 333 |
| Mrs A Aitken[3] | **1,000** | 12,000 | **1,295** | 3,787 |
| Dr K Bharj OBE[4] | **1,000** | 12,000 | **1,244** | 5,155 |
| Yr Athro J Ellis MBE[5] | **12,170** | 30,000 | **60** | 729 |
| Mrs J Fletcher[6] | **-** | 2,000 | **-** | 827 |
| Mrs S Hooton[7] | **1,000** | 9,633 | **1,034** | 1,943 |
| Mrs L Jacobs[8] | **2,940** | 21,895 | **1,587** | 4,270 |
| Mr G Owen[9] | **1,485** | 14,910 | **832** | 4,112 |
| Ms N Patterson[10] | **6,000** | 9,633 | **3,745** | 2,085 |
| Mr D Pyle[11] | **1,000** | 12,000 | **97** | 1,994 |
| Mrs C Rees-Williams[12] | **1,000** | 12,000 | **220** | 1,727 |
| Ms R Sawtell[13] | **1,000** | 12,000 | **87** | 897 |
| Mrs B Teuten[14] | **1,000** | 12,000 | **167** | 430 |

[2] Penodwyd yn Gadeirydd y Cyngor 10 Medi 2012.
[3] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.
[4] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.
[5] Dirprwy Gadeirydd y Cyngor rhwng 1 Ebrill a 10 Medi 2012. Yn ystod 2012-13 talwyd lwfans blynyddol yr ymddiriedolwyr gwerth £12,000 i'r Athro Ellis a thalwyd £18,000 i Brifysgol Glannau'r De, Llundain mewn perthynas â'i gwasanaeth yn ystod ei chyfnod fel Ddirprwy Gadeirydd. Yn ystod 2013-2014, roedd y taliadau lwfans yn cynnwys £170 ar gyfer hyfforddiant yn ymwneud â chadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[6] Ymddiswyddodd 31 Mai 2012.
[7] Mewn swydd rhwng 12 Mehefin 2012 a 30 Ebrill 2013.
[8] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £1,940 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[9] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £485 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[10] Mewn swydd rhwng 12 Mehefin 2012 a 30 Medi 2013.
[11] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.
[12] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013
[13] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013

| Aelodau'r Cyngor | Lwfans a dalwyd i'r aelod 2013–2014 (£) | Lwfans a dalwyd i'r aelod 2012 – 2013 (£) | Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2013–2014 (£) | Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2012–2013 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Yr Athro J Tunstill[15] | **1,000** | 12,000 | **-** | - |
| Maureen Morgan OBE[16] | **14,590** | - | **2,501** | - |
| Maura Devlin[17] | **7,020** | - | **3,360** | - |
| Quinton Quayle[18] | **11,000** | - | **2,908** | - |
| Louise Scull[19] | **11,000** | - | **3,238** | - |
| Carol Shillabeer[20] | **11,000** | - | **2,305** | - |
| Elinor Smith[21] | **12,455** | - | **5,088** | - |
| Amerdeep Somal[22] | **15,850** | - | **7,024** | - |
| Stephen Thornton CBE[23] | **11,000** | - | **2,986** | - |
| Lorna Tinsley[24] | **23,975** | - | **5,343** | - |
| Dr Anne Wright CBE[25] | **11,000** | - | **-** | - |

98 Mae aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau'r Cyngor, yn cael lwfans presenoldeb dyddiol o £260 a threuliau teithio rhesymol.

**Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau**

99 Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cadeirydd ac aelodau unigol yn 2013-2014.

100 Caiff perfformiad Cadeirydd y Cyngor ei adolygu gan y Dirprwy Gadeiryddion, a hynny drwy adolygiad strwythuredig a gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd, asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor ac asesiad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd (a thrwyddo ef neu hi, y

---

[14] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013
[15] Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013
[16] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £3,590 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[17] Penodwyd i'r Cyngor 1 Hydref 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £1,020 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[18] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013.
[19] Aelod partner hyd at 30 Ebrill 2013; penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013.
[20] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013.
[21] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £1,455 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[22] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013: yn cynnwys taliadau lwfans o £4,850 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[23] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013.
[24] Yn cynnwys taliadau lwfans o £12,975 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[25] Penodwyd i'r Cyngor 1 Mai 2013.

cyfarwyddwyr). Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd.

**Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli**

101 Mae'r uwch dîm rheoli (a elwir yn Fwrdd Gweithredol) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr sy'n atebol yn uniongyrchol iddo ef neu hi. Nid ydynt yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr y CNB.

102 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol fel y'i dirprwywyd gan y Cyngor. Felly yr unig fanylion am gydnabyddiaeth a ddatgelir yn llawn yw rhai'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.

103 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried ac yn argymell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. Y Pwyllgor sy'n cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennwyd gan y Cyngor. Yn 2013-2014, cymhwyswyd cynnydd o 2.3 y cant at gyflogau staff, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

104 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cymeradwyo'r broses o bennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a gwerthuso ei berfformiad, a'r adroddiadau adolygu gan y Cadeirydd mewn perthynas â hynny, ac mae'n adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ymwneud â phennu amcanion ar gyfer y cyfarwyddwyr a gwerthuso eu perfformiad. Aseswyd perfformiad y cyfarwyddwyr drwy ein proses adolygu perfformiad a datblygiad a weithredwyd yn ystod 2013-2014. Nid oedd unrhyw gyswllt ffurfiol rhwng cyflog a pherfformiad yn ystod 2013-2014.

105 Penodwyd Jackie Smith yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd am gyfnod o flwyddyn, yn weithredol o 8 Hydref 2012. Fe'i penodwyd i'r swydd barhaol ar sail barhaol, yn weithredol o 19 Mehefin 2013. Ei chydnabyddiaeth yn 2013–2014 oedd £164,677[26] ac roedd ei buddiannau pensiwn yn werth £69,240,[27] gan greu cyfanswm cydnabyddiaeth o £233,917. (Yn 2012-2013, ei chydnabyddiaeth oedd

[26] Mae'r swm ar gyfer 2013-2014 yn cynnwys cynnydd o 2.3 y cant mewn cyflog sylfaenol yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer pob aelod o staff, ynghyd â thaliad am 19 diwrnod o wyliau blynyddol nas cymerwyd yn ystod 2012-2013 a 2013-2014.
[27] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn ar sail y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan yr aelod. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

£151,582 ac roedd ei buddiannau pensiwn yn werth £38,794[28], gan greu cyfanswm cydnabyddiaeth o £190,376.)

106 Mae Jackie Smith yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y CNB (gweler nodyn 11 i'r cyfrifon). Mae manylion sefyllfa ei phensiwn fel a ganlyn:

- Roedd y cynnydd gwirioneddol yn ystod 2013-2014 yn ei phensiwn yn 60 oed rhwng £2,500 a £5,000 y flwyddyn (2012-2013: rhwng £0 a £2,500).

- Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ystod 2013-2014 yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2014 rhwng £17,500 a £20,000 a byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ei phensiwn gweddilliol rhwng £2,500 a £5,000 y flwyddyn.

- Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2014 rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn (31 Mawrth 2013: rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn). Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai gwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2014 rhwng £40,000 a £45,000 a byddai hyn yn gadael pensiwn gweddilliol o rhwng £5,000 y flwyddyn a £10,000 y flwyddyn yn 60 oed ar 31 Mawrth 2014.

- Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod[29] buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £126,000.

- Y cynnydd net yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ystyried cyfraniadau'r aelod) yw £82,000.

- Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2014 yw £216,000 (31 Mawrth 2013: £126,000).[30]

107 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2013-2014.

---

[28] Fel troednodyn 27.

[29] Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol.

[30] Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng y gwerth trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol dros y flwyddyn, o gymharu â'r gwerth trosglwyddo hyd at 31 Mawrth 2014 i newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo ar y ddau ddyddiad gwahanol.

**Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff**

108 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.

109 Caiff cydnabyddiaeth pob cyflogai ei hadolygu bob blwyddyn. O fewn y gyllideb a bennir gan y Cyngor, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud penderfyniadau bob blwyddyn am ganran y cynnydd i'w gymhwyso, gan ystyried fforddiadwyedd cyffredinol, cyfraddau cost byw, data meincnodi, a data recriwtio a chadw staff. Yn 2013-2014, cymhwysodd y Bwrdd Gweithredol gynnydd cyffredinol o 2.3 y cant at bob aelod cymwys o staff yn weithredol o 1 Ebrill 2013. Gwnaed hyn yn dilyn penderfyniad i rewi cyflog pob aelod o staff yn ystod 2012-2013 ac eithrio'r staff yn y ddau fand cyflog isaf y dyfarnwyd iddynt gynnydd nad oedd yn gysylltiedig â pherfformiad o ddau y cant.

110 Yn ystod 2013-2014, cynhaliwyd adolygiad llawn o gyflogau a graddfeydd, gyda chymorth allanol arbenigol ac mewn ymgynghoriad â staff. Rhoddwyd strwythur cyflogau newydd ar waith ar 1 Ionawr 2014 yn seiliedig ar greu naw teulu swyddi newydd. Yn dilyn gwerthuso rolau, dyrannwyd swyddi i deulu swyddi a lefel cyflog newydd gyda phroses apelio ar gyfer staff a oedd yn dymuno herio'r dyraniad. Mae gennym ddogfen ganllaw ar gyflogau sy'n cynnwys manylion llawn y ffordd y mae'r trefniadau cyflog yn gweithio. Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i staff a oedd yn talu llai na'r meincnod gofynnol newydd ar gyfer pob graddfa gyflog dalu'r lefel ofynnol. Ystyrir gwaith i ddatblygu'r strwythur cyflogau ymhellach yn ystod 2014-2015 er mwyn sicrhau y gallwn ddenu a chadw gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau priodol.

111 Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd yn gysylltiedig ag ystyriaethau cyflog. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom adolygu ein trefniadau presennol a byddwn yn rhoi system gwerthuso a datblygu ddiwygiedig ar waith o fis Ebrill 2014. Rydym bellach yn ystyried sut y dylai unrhyw gysylltiadau rhwng cyflog a pherfformiad weithredu o dan y trefniadau newydd.

**Trefniadau pensiwn**

112 Mae'r CNB yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

113 Mae cyflogeion sy'n aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu gwerth chwech y cant o'u cyflog. Cyfrannodd y cyflogwr 27.4 y cant at y cynllun pensiwn yn ystod 2013-2014, fel y nodwyd gan Actwari’r Cynllun. Roedd tua 48 y cant o'r cyflogeion yn aelodau o'r cynllun hwn ar 31 Mawrth 2014. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd â'r CNB ar ôl 1 Tachwedd 2013.

114 Sefydlodd y CNB gynllun cyfraniadau diffiniedig o 1 Tachwedd 2013 y gallai cyflogeion a ymunodd â'r CNB ar neu ar ôl y dyddiad hwn ddewis ymuno ag ef. Yn dilyn proses ddethol, gwnaethom benodi *The People's Pension* i weithredu'r cynllun. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o bedwar y cant i mewn i'r cynllun ac mae'r cyflogai'n gwneud cyfraniad sylfaenol o un y cant. Roedd tua dau y cant o'r cyflogeion wedi ymuno â'r cynllun ar 31 Mawrth 2014. Mabwysiadwyd y cynllun cyfraniadau diffiniedig fel cynllun pensiwn gweithle y CNB at ddibenion awto-gofrestru a bydd yn gweithredu o 1 Ebrill 2014 pan fydd pob cyflogai cymwys yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun.

**Gwahaniaethau cyflog yn y CNB**

115 Roedd cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, 6.13 gwaith (2012–2013: 5.74 gwaith) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £26,859 (2012–2013: £26,400). Gellir priodoli'r cynnydd yn y gwahaniaeth i'r taliad am 19 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol nas cymerwyd; heb gynnwys y taliad hwn, byddai'r gymhareb 5.71 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu.

116 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân nad yw'n gysylltiedig â pherfformiad, buddiannau mewn da, gwyliau blynyddol â thâl yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

117 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

118 Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r gyfarwyddeb a gafwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) ac i'r cyfrifon hefyd gydymffurfio â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (Atodiad 1).

119 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon blynyddol gael eu paratoi a'u harchwilio. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

120 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r ffordd y defnyddiwyd adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys,
- datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

121 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

122 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym *Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn *Managing public money* (Trysorlys EM, 2013).

**Prif le busnes**

123 Mae'r CNB yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

**Cynghorwyr**

**Archwilwyr ar y Cyd**

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

**Archwilwyr ar y Cyd**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**

HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

**Cyfreithwyr**

Field Fisher Waterhouse
35 Vine Street
London
EC3N 2AA

**Archwilwyr Mewnol**

Moore Stephens
150 Aldersgate Street
London
EC1A 4AB

## Datganiad llywodraethu blynyddol

124 Mae'r CNB yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol.[31] Rydym hefyd yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362). Ein hamcan elusennol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ac eglurwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd y cyhoedd.

### Y Cyngor

125 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CNB ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo materion y CNB, gan sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

126 Ailgyfansoddwyd y Cyngor ar 1 Mai 2013 yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.[32] Cafodd y Cyngor ei leihau o 14 i 12 o ganlyniad i hyn, ond gan gynnal nifer gyfartal o aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwraig gofrestredig. Penodir pob aelod gan y Cyfrin Gyngor.

127 Wrth baratoi ar gyfer ailgyfansoddi'r Cyngor, gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol er mwyn helpu i ddatblygu model llywodraethu addas at y diben. Ers i’r Cyngor ddechrau ar ei waith, mae wedi gweithredu argymhellion yr adolygiad: symleiddio strwythurau llywodraethu a chytuno ar gynllun dirprwyo, rheolau sefydlog, a chod ymarfer newydd i aelodau. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i weithredu ar lefel strategol tra'n sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am faterion gweithredol ar lefel weithredol.

128 Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol a gwerthoedd corfforaethol y CNB, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r CNB a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt.

129 Nodir isod bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

[31] OS 2002/253
[32] OS 2012/2745

**Aelodaeth y cyngor a ffigurau presenoldeb rhwng 1 a 30 Ebrill 2013.**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Mark Addison CB (Cadeirydd) | 1 | 1 |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | 1 | 1 |
| Alison Aitken | 1 | 1 |
| Dr Kuldip Bharj OBE | 1 | 0 |
| Sue Hooton OBE | 1 | 1 |
| Lorna Jacobs | 1 | 1 |
| Grahame Owen | 1 | 1 |
| Nicki Patterson | 1 | 1 |
| David Pyle | 1 | 0 |
| Carole Rees-Williams | 1 | 1 |
| Ruth Sawtell | 1 | 1 |
| Beatrice Teuten | 1 | 1 |
| Professor Jane Tunstill | 1 | 1 |

**Aelodaeth y cyngor a ffigurau presenoldeb rhwng 1 Mai 2013 a 31 Mawrth 2014.**

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Mark Addison CB (Cadeirydd) | 7 | 7 |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | 7 | 7 |
| Maureen Morgan OBE | 7 | 6 |
| Nicki Patterson (hyd at 30 Medi 2013) | 4 | 4 |
| Maura Devlin (o 1 Hydref 2013) | 3 | 2 |
| Quinton Quayle | 7 | 7 |
| Louise Scull | 7 | 6 |
| Carol Shillabeer | 7 | 7 |
| Elinor Smith | 7 | 6 |
| Amerdeep Somal | 7 | 6 |
| Stephen Thornton CBE | 7 | 6 |
| Lorna Tinsley | 7 | 7 |
| Dr Anne Wright CBE | 7 | 7 |

## Pwyllgorau

130 Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Pwyllgor Bydwreigiaeth. Gall y Cyngor sefydlu pwyllgorau eraill at ddibenion penodol. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mai 2013 a 31 Mawrth 2014, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Penodiadau, Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Cydnabyddiaeth. Nodir isod gylch gwaith, aelodaeth a ffigurau presenoldeb pob pwyllgor.

## Bwrdd Penodiadau

131 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi aelodau panel ac aseswyr cyfreithiol. Nodir isod aelodaeth a ffigurau presenoldeb.

.

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Nigel Ratcliffe (Cadeirydd) | 3 | 3 |
| Bridget Anderson | 3 | 3 |
| Mary Dowling | 3 | 2 |
| Stephen McCafferty | 3 | 2 |

**Y Pwyllgor Archwilio Ebrill 2013**

132 Yn ystod y cyfnod rhwng 1 a 30 Ebrill 2013, cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod ein busnes yn cael ei gynnal â'r uniondeb, y gonestrwydd a'r effeithlonrwydd mwyaf, a bod systemau priodol ar waith ar gyfer rheoli risg. Nodir isod yr aelodaeth a'r ffigurau presenoldeb yn ystod y cyfnod hwn.

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Ruth Sawtell (Cadeirydd) | 1 | 1 |
| Beatrice Teuten | 1 | 1 |
| Sue Hooton OBE | 1 | 0 |
| Yr Athro Jane Tunstill | 1 | 1 |
| Julia Drown (aelod partner) | 1 | 1 |
| Louise Scull (aelod partner) | 1 | 1 |

**Y Pwyllgor Archwilio rhwng 1 Mai 2013 a 31 Mawrth 2014**

133 Cylch gwaith diwygiedig y Pwyllgor Archwilio o 1 Mai 2013 yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

134 Estynnodd y Cyngor wahoddiad i Julia Drown (aelod partner) barhau i wasanaethu ar y Cyngor hyd at 18 Gorffennaf 2013 er mwyn darparu dilyniant ychwanegol wrth adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2012-2013 cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Louise Scull (Cadeirydd) | 4 | 4 |
| Carol Shillabeer | 4 | 4 |
| Stephen Thornton | 4 | 3 |
| Julia Drown (aelod partner hyd at 18 Gorffennaf 2013) | 1 | 1 |

**Y Pwyllgor Bydwreigiaeth**

135 Cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw cynghori'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Nodir isod aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Pwyllgor.

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Dr Kuldip Bharj OBE (Cadeirydd hyd at 30 Ebrill 2013) | 1 | 1 |
| David Pyle (hyd at 30 Ebrill 2013) | 1 | 1 |
| Dr Anne Wright CBE (Cadeirydd o 1 Mai 2013) | 5 | 5 |
| Lorna Tinsley (o 1 Mai 2013) | 5 | 5 |
| Marie McDonald (aelod partner) | 6 | 5 |
| Kirsty Darwent (aelod partner) | 6 | 2 |
| Ann Holmes (aelod partner) | 6 | 4 |
| Frances McCartney (aelod partner) | 6 | 4 |
| Gillian Boden (aelod partner hyd at 31 Rhagfyr 2013) | 4 | 4 |
| Dorothy Patterson (aelod partner hyd at 31 Rhagfyr 2013) | 4 | 3 |
| Pradeeep Agrawal (o 1 Ionawr 2014) | 2 | 2 |
| Patricia Gillen (o 1 Ionawr 2014) | 2 | 2 |

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

136 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y CNB. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2013 a 31 Mawrth 2014.

| Aelod | Cyfarfodydd | Yn bresennol |
|---|---|---|
| Quinton Quayle (Cadeirydd) | 2 | 2 |
| Elinor Smith | 2 | 1 |
| Amerdeep Somal | 2 | 2 |
| Stephen Thornton | 2 | 2 |

**Rôl y Bwrdd Gweithredol**

137 Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r CNB o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

138 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol, cadw cyfrif priodol o faterion ariannol, osgoi gwastraff ac afradlondeb a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

139 Fel yr argymhellwyd gan yr adolygiad allanol o drefniadau llywodraethu, ym mis Mehefin 2013 sefydlodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd Fwrdd Gweithredol, yn cynnwys cyfarwyddwyr pob un o'r swyddogaethau corfforaethol. Cylch gwaith y Bwrdd Gweithredol yw helpu'r Prif Weithredwr i gyflawni ei chyfrifoldebau drwy (a)

datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; (b) monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; (c) gwerthuso a rheoli risg; (ch) blaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

**Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu**

140 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau safonau uchel wrth lywodraethu. Mae ein harfer yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol* (2011) Trysorlys EM i'r graddau y mae'n gymwys i'r sefydliad. Rydym yn cynnal ein busnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

141 Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun, fel y mae pob Pwyllgor. Dangosodd y canlyniadau lefel gyffredinol o foddhad â'r strwythur a'r gweithrediadau. Ymhlith y meysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y dyfodol mae:

141.1 Cynnal dadansoddiad o sgiliau a chymwyseddau aelodau'r Cyngor er mwyn llywio gweithgareddau recriwtio a dethol yn y dyfodol.

141.2 Mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu cyffredinol ac unigol aelodau gan sicrhau eu bod wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u teilwra'n briodol.

141.3 Datblygu amcanion y Cyngor ymhellach, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes mewn perthynas ag ymddygiadau a chydberthnasau.

141.4 Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i'r Cyngor a Phwyllgorau ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth a bod risgiau'n cael eu hystyried yn llawn.

141.5 Datblygu dull mwy syml o ymdrin â'r broses adolygu effeithiolrwydd, gan gynnwys gwerthusiadau aelodau unigol ar gyfer 2014–2015.

142 Cyflwynir adroddiad ar berfformiad a risg i'r Cyngor ym mhob cyfarfod ac mae wedi cydweithio â'r Bwrdd Gweithredol er mwyn mireinio'r wybodaeth ariannol a pherfformiad a roddir drwy gydol y flwyddyn. Rhoddodd adolygiad archwilio mewnol sicrwydd am y data perfformiad allweddol y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt.

**Rheolaeth fewnol a rheoli risg**

143 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n galluogi'r CNB i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am weithredu'r system o reolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system o reolaeth fewnol.

144 Ymhlith mesurau a gymerwyd i atgyfnerthu rheolaethau mewnol a threfniadau rheoli risg yn ystod y flwyddyn roedd:

144.1 Penodi archwilwyr mewnol newydd o fis Ebrill 2013, mabwysiadu siart archwilio mewnol diwygiedig yn seiliedig ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chytuno ar strategaeth archwilio mewnol ar gyfer 2013-2016.

144.2 Gweithredu polisi a fframwaith rheoli risg cryfach o fis Mai 2013, wedi'u hategu gan hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a phob rheolwr.

144.3 Cyflwyno strategaeth a fframwaith sicrhau ansawdd corfforaethol a ffurfio tîm dynodedig i oruchwylio'r broses o weithredu canlyniadau'r strategaeth ar draws y sefydliad a chynnal adolygiadau sicrwydd ansawdd a gynlluniwyd.

144.4 Llunio map sicrwydd er mwyn helpu'r Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio, a'r Cyngor i asesu cryfder rheolaethau ar draws y sefydliad fel llinellau amddiffyn cyntaf ac ail a thrydydd linellau (y model a argymhellwyd gan Drysorlys EM).

144.5 Adolygu'r polisi ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol corfforaethol a'r broses adrodd a datblygu cronfa ddata ar gyfer cofnodi digwyddiadau er mwyn helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.

145 Ymhlith materion allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy gan y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn roedd:

145.1 Cymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol ar gyfer 2013-2016; y rhaglen waith ar gyfer 2013-2014 ac ystyried ymatebion rheolwyr i adolygiadau archwilio mewnol.

145.2 Goruchwylio'r camau a gymerir gan reolwyr i fynd i'r afael ag argymhellion archwilwyr mewnol hanesyddol nas gweithredwyd neu eu cau.

145.3 Adolygu'r polisi a'r fframwaith rheoli risg diwygiedig a'r modd y cânt eu hymgorffori.

145.4 Adolygu cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth sicrhau ansawdd gorfforaethol a datblygu'r fframwaith sicrwydd yn barhaus.

145.5 Adolygu'r gofrestr o ddigwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data heb awdurdod a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddysgu a gwella'n barhaus.

145.6 Adolygu'r rheoliadau ariannol; y polisi ar gyfer chwythu'r chwiban; a pholisïau gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

145.7 Ystyried y modd y caiff dysgu ehangach ei gymhwyso at y CNB mewn perthynas â materion llywodraethu a nodwyd yn *yr Ymchwiliad Annibynnol i'r gofal a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford* (adroddiad Francis).

145.8 Adolygu adroddiadau ac ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio allanol; effeithiolrwydd archwilwyr allanol ac ystyried trefniadau ar gyfer darparu archwiliadau allanol yn y dyfodol.

146 Cwblhawyd gweithgarwch archwilio mewnol yn unol â'r rhaglen waith y cytunwyd arni. Roedd hyn yn cynnwys aseiniadau ymgynghorol i ddogfennu elfennau o brosesau a rheolaethau cofrestru yn ogystal â 12 o adolygiadau archwilio unigol. Aeth yr adolygiadau i'r afael â'r canlynol: diogelwch data; rheoli rhaglenni a phrosiectau; y rhaglen ailddilysu; gwybodaeth perfformiad allweddol; rheoli risg; sicrhau ansawdd; uwchraddio systemau TG craidd; strategaeth TG; parhad busnes ac uniondeb data aelodau cofrestredig. Cynhaliwyd aseiniadau ychwanegol ar TG a thwyll ar gais rheolwyr. Caiff effeithiolrwydd y modd y gweithredwyd argymhellion ei ystyried gan reolwyr a chyflwynir adroddiadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.

147 Ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae meysydd allweddol lle mae digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, prosesau rheoli risg a rheolaethau yn annigonol ac mae angen eu gwella. Canfu archwiliad mewnol fod rheolwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i archwiliadau a gynhaliwyd ac argymhellion a wnaed a nodwyd amrywiaeth o welliannau y disgwylir iddynt gael effaith gadarnhaol ar brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau. Mae'r rhain yn cynnwys ymgorffori gweithdrefnau rheoli risg ac ansawdd, a gwaith sylweddol i uwchraddio systemau data aelodau cofrestredig craidd. Bwriedir gwneud rhagor o waith yn ystod 2014-2015 i barhau i atgyfnerthu a gwella prosesau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaethau.

**Rheoli risg**

148 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg. Y Cyngor sy'n berchen ar y gofrestr risg gorfforaethol ac mae wedi trafod y prif risgiau y mae'r CNB yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cynnal ymchwiliadau trylwyr i risgiau corfforaethol allweddol mewn sesiwn gyfrinachol a chyfrannodd at waith i ddiweddaru'r gofrestr risg gorfforaethol.

149 Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r polisi rheoli risg a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac wedi ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg, ym mhob un o'i gyfarfodydd.

150 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi rheoli risg a, thrwy'r cyfarwyddwyr, am nodi a gwerthuso risgiau, gan roi mesurau priodol ar waith i liniaru risgiau a monitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd.

151 Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn ei gyfarfodydd misol ac yn dadansoddi canlyniadau'r broses fisol o graffu ar y cofrestrau risg a gynhelir gan bob cyfarwyddiaeth a'r Bwrdd Portffolio Rheoli Newid. Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd wedi cael map yn olrhain natur, nifer a chyfeiriad risgiau.

152 Gwnaethom gynnal adolygiad o'r dull newydd o ymdrin â rheoli risg, ynghyd ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Cynhaliwyd archwiliadau mewnol hefyd mewn perthynas â'r polisi a'r fframwaith rheoli risg a'r modd y mae'r rhain yn gweithredu yn ymarferol. Eir ar drywydd argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach o'r adolygiadau a'r archwiliadau.

**Risgiau a materion allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn**

153 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i fynd i'r afael â chanfyddiadau Adolygiad Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd yn flaenorol) a gynhaliwyd yn 2012. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau proses bontio ddidrafferth i'r Cyngor ar ei ffurf newydd tra'n parhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd yn ddi-dor.

154 Gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o'n cynnydd a chyflwynwyd adroddiad yn ei gylch ym mis Medi 2014.[33] Canfu'r adolygiad hwn ein bod wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau, gan gynnwys cynnydd yn erbyn pob un o'r pedwar maes lle roedd angen cymryd camau ym marn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: diben rheoleiddio; safbwyntiau rhanddeiliaid allanol; pobl a diwylliant; a rheolaeth weithredol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y CNB mewn sefyllfa gryfach o lawer nag yn 2012. Bydd y canfyddiadau hyn yn llywio gwaith llunio busnes ar gyfer y dyfodol a'n strategaeth bum mlynedd ar gyfer 2015-2020.

155 Rydym wedi cynnal ein sefydlogrwydd ariannol, gan barhau i fuddsoddi adnoddau angenrheidiol er mwyn gwella ein gweithrediadau addasrwydd i ymarfer, yn ogystal â mynd i'r afael â phryderon a nodwyd yn ystod 2012-2013 yn ymwneud â chofrestriadau o dramor. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â chadernid prosesau hanesyddol ar gyfer ystyried cofrestriadau o dramor. Yn dilyn archwiliad helaeth, cadarnhaodd adolygiad allanol y bu gwendidau gweinyddol rhwng 2002 a 2006 ond bod rheolaethau cryf wedi bod ar waith ers 2007. Yn dilyn sefydlogi prosesau, aethom ati unwaith eto i ystyried ceisiadau o dramor ym mis Ebrill 2013, a chyflwynwyd gwelliannau pellach yn ystod y flwyddyn gan gynnwys proses well o ddilysu dogfennau a manylion personol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno

[33] Adolygiad allanol o'r cynnydd a wnaed gan y CNB yn erbyn argymhellion Adolygiad Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 2012 (CNB, Medi 2014)

prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr a hyfforddwyd dramor yn 2014 er mwyn atgyfnerthu rheolaethau ymhellach.

156 Gwnaethom gyhoeddi ein hymateb ffurfiol a chynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Francis mewn ffordd sy'n atgyfnerthu ein ffocws ar gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Rydym wedi gwneud yr holl baratoadau i gyflwyno'r gofynion newydd sydd ar y gweill i aelodau cofrestredig feddu ar yswiriant indemnio pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y llywodraeth.

157 Mae'r risgiau allweddol rydym yn parhau i'w rheoli'n agos ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

157.1 Parhau i sicrhau ein sefydlogrwydd ariannol drwy gyllidebu darbodus, rheolaeth ariannol drylwyr ac adolygu ffioedd cofrestru bob blwyddyn. Penderfynodd y Cyngor ym mis Mawrth 2014 gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gynnydd posibl i'r ffioedd o 2015 a chaiff penderfyniad terfynol ei wneud ar ddiwedd 2014.

157.2 Gwella cywirdeb ein cofrestr hanesyddol a phresennol ymhellach. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau parhaus ac archwiliadau sy'n seiliedig ar risg; cyflwyno systemau cofrestru ar-lein yn raddol; diwygio polisïau, prosesau a rheolaethau; a datblygu ein rhaglen i gyflwyno proses ailddilysu.

157.3 Parhau i fuddsoddi yn ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer a chynnal a gwella ansawdd ac amseroldeb y broses o ddatrys achosion ymhellach. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ac eraill i geisio creu fframwaith deddfwriaethol mwy hyblyg a syml er mwyn ein galluogi i gymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd yn gynt ac yn fwy effeithiol.

157.4 Mynd i'r afael â gwydnwch o fewn y tîm arwain yn ogystal â throsiant staff uchel: mae hyn yn cynnwys gweithredu, o fis Ionawr 2014, adolygiad o gyflogau a graddfeydd, proses well o gynllunio'r gweithlu a datblygu llwybrau gyrfa a pharhau i wrando ar staff a rheoli disgwyliadau.

157.5 Datblygu strategaeth i wella ansawdd ein data a'n gwybodaeth at ddibenion mewnol ac er mwyn cefnogi trefniadau cydweithio â phartneriaid eraill sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a rheoleiddio gofal iechyd.

157.6 Parhau i ddatblygu ein proffil â rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff ein rôl ei deall a'n bod yn cydweithio'n effeithiol ag eraill er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd ymhellach, gan gynnwys wrth i ni symud tuag at gyflwyno'r rhaglen ailddilysu.

157.7 Cwblhau'r broses o roi ein strategaeth sicrhau ansawdd ar waith a datblygu dull corfforaethol mwy cydgysylltiedig o wella gwasanaeth cwsmeriaid.

157.8 Adeiladu ar y gwaith a wnaed i sefydlogi ein systemau TGCh, sy'n golygu ein bod bellach mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau am fuddsoddiadau tymor hwy a'r gallu i fodloni gofynion sefydliadol yn y dyfodol.

**Diffygion o ran diogelwch**

158 Mae polisïau'r CNB yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Mae ein diffiniad o ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn cynnwys digwyddiadau lle bu posibilrwydd o dor-rheol ond na chafodd data eu datgelu heb awdurdod mewn gwirionedd, yn ogystal â digwyddiadau sy'n ymwneud ag uniondeb data. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto. Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth.

159 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, bu 98 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, y cafodd saith ohonynt eu dosbarthu’n rhai mawr, 25 yn rhai cymedrol, 40 yn rhai mân, a 26 yn rhai dibwys. Ni chafodd yr un digwyddiad ei ddosbarthu'n un tyngedfennol. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am un digwyddiad, a oedd yn ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gyfrinachol ar wefan y CNB.

160 Rydym yn parhau i roi ein cynllun gwella diogelwch gwybodaeth cynhwysfawr ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf a gwella aeddfedrwydd ein rheolaethau, yn ogystal â mynd i'r afael ag argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad archwilio mewnol. Yn ystod 2013-2014, rhoddwyd 35 o'r rheolaethau risg mwyaf ar waith yn erbyn y cynllun hwnnw.

**Gwybodaeth archwilio berthnasol**

161 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr y CNB yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y CNB yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

## Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu'r Cyngor o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen a'r Cyngor, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau i chi yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 44(1)(c) ac adran 154 o'r Deddfau hynny yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r elusen ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Cyngor er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2014 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2001 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir a digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

*Haysmacintyre*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*Archwilwyr Statudol*

26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

**9 Hydref 2014**

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd', y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2014 ac o'i adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Dyddiad: 16 Hydref 2014**

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | **Cronfeydd digyfyngiad 2014** | **Cronfeydd cyfyngedig 2014** | **Cyfanswm cronfeydd 2014** | Cyfanswm cronfeydd 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| **Adnoddau i mewn** | | | | | |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o weithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Incwm ffioedd | 3 | **62,772** | _ | **62,772** | 52,080 |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd: | | | | | |
| • Incwm buddsoddiadau | 2 | **741** | **242** | **983** | 1,275 |
| • Grant (Yr Adran Iechyd) | 27 | _ | **1,438** | **1,438** | 20,000 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | | **63,513** | **1,680** | **65,193** | 73,355 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | **57,876** | **8,537** | **66,413** | 57,764 |
| Costau llywodraethu | 5 | **2,975** | _ | **2,975** | 3,590 |
| Adnoddau eraill a wariwyd: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 6 | **1,202** | _ | **1,202** | 1,912 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | | **62,053** | **8,537** | **70,590** | 63,266 |
| **Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau** | | **1,460** | **(6,857)** | **(5,397)** | 10,089 |
| **Enillion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Ennill nas gwireddwyd wrth ailbrisio asedau sefydlog | | **3,741** | _ | **3,741** | 2,766 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **5,201** | **(6,857)** | **(1,656)** | 12,855 |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen | | **35,667** | **18,857** | **54,524** | 41,669 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **40,868** | **12,000** | **52,868** | 54,524 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 69 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | **2014** **£'000** | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 13 | **23,753** | 20,391 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **23,753** | 20,391 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 15 | **1,157** | 1,747 |
| Adneuon byrdymor | 25 | **67,100** | 65,354 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 25 | **11,150** | 10,058 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **79,407** | 77,159 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 16 | **(49,287)** | (42,221) |
| Darpariaethau (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 17 | **(325)** | (67) |
| **Asedau cyfredol net** | | **29,795** | 34,871 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **53,548** | 55,262 |
| **Credydwyr**(symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 18 | **(105)** | (102) |
| **Darpariaethau** (symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 19 | **(575)** | (636) |
| **Asedau net** | | **52,868** | 54,524 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | 27 | **12,000** | 18,857 |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | | **40,868** | 35,667 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **52,868** | 54,524 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 69 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Mark Addison CB**
**Cadeirydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**CNB**
**9 Hydref 2014**

## Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | **£'000** | **2014**<br>**£'000** | £'000 | 2013<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 23 | | **4,376** | | 10,379 |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | | |
| Llog a gafwyd | 2 | **983** | | 1,275 | |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 13 | **(2,521)** | | (1,674) | |
| | | | **(1,538)** | | (399) |
| **Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn** | | | **2,838** | | 9,980 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 50 i 69 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Nodiadau i'r Cyfrifon**

**1 Polisïau cyfrifyddu**

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r *Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau* (SoRP Elusennau 2005) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SoRP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

**a) Confensiwn cyfrifyddu**

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog.

**b) Asedau sefydlog**

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar | - 3 - 5 mlynedd |
| Dodrefn | - 10 mlynedd |
| Adnewyddu - 23 Portland Place | - 10 mlynedd |
| Safle ar brydles - 23 Portland Place | - 50 mlynedd |
| Safle ar brydles - 61 Aldwych | - 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Safle ar brydles - Clarendon House -Llawr Daear | - 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Safle ar brydles - Clarendon House -Llawr cyntaf | - 2 flynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Safle ar brydles - 1 Kemble Street | - 8.5 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Safle ar brydles - 20 Old Bailey | - 23 mis (dros gyfnod y brydles) |
| Prosiectau TG | - 3 - 5 mlynedd |

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Mae'r CNB yn ailbrisio ei eiddo ar brydles bob pum mlynedd gan gynnal adolygiad interim o'r lleihad mewn gwerth yn y drydedd flwyddyn yn unol ag FRS15, ac ailbrisiad interim yn y cyfamser lle mae'n debygol y bu newid perthnasol mewn gwerth.

**c) Adnoddau sy'n codi - incwm**

**Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill. Datgelir incwm buddsoddiadau mewn perthynas â grantiau a gafwyd fel incwm buddsoddiadau cyfyngedig.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Credydwyd ffioedd cofrestru, dilysu a disodli cerdyn rhif adnabod personol i'r incwm ar y diwrnod derbyn. Dyrannwyd ffioedd cyfnodol i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Mae a wnelo ffioedd cyfnodol ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol.

**ch) Dyrannu costau**

Mae costau gweithredu'r CNB yn cynnwys costau staff, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath rhwng gwariant elusennol uniongyrchol, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraethu. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr ac addasrwydd i ymarfer.

**Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn ymwneud â gwariant yr eir iddo wrth reoli asedau'r CNB, gweinyddu'r sefydliad a chydymffurfio â gofynion statudol.

**Gwariant arall**

Mae gwariant arall yn cynnwys:

**Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae costau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â chostau'r adran Gyfathrebu, y mae eu prif elfennau'n cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith gyda senedd y DU a senedd Ewrop, cynadleddau a digwyddiadau, cysylltiadau â'r cyfryngau a gwariant ar gyhoeddiadau'r CNB.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 27 i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd anghyfyngedig

Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

**e) Asedau ar brydles**

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

**f) Costau pensiwn**

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan y CNB a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r CNB yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r CNB yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan y CNB a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

**2 Incwm buddsoddiadau**

| | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | **741** | **242** | **983** | 1,275 |
| • o adneuon mewn banciau | **741** | **242** | **983** | 1,275 |

**3 Incwm ffioedd**

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd cyfnodol | **61,483** | 51,299 |
| Cofrestru | **1,170** | 638 |
| Dilysu | **119** | 140 |
| Disodli cardiau rhif adnabod personol | **0** | 3 |
| | **62,772** | 52,080 |

**4 Gweithgareddau elusennol**

| | Anghyfyngedig £'000 | Cyfyngedig £'000 | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,880** | **-** | **1,880** | 2,145 |
| Addysg | **1,650** | **-** | **1,650** | 1,395 |
| Cynnal y gofrestr | **6,101** | **1,438** | **7,539** | 5,560 |
| Addasrwydd i ymarfer | **48,245** | **7,099** | **55,344** | 48,664 |
| | **57,876** | **8,537** | **66,413** | 57,764 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,[34] costau staff a gorbenion cysylltiedig

**5 Costau llywodraethu**

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, costau teithio, cynhaliaeth a hyfforddiant aelodau | **313** | 278 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre | **25** | 28 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | **5** | 5 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[35] | **2,632** | 3,279 |

[34] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 8
[35] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d)

| | | |
|---|---|---|
| | **2,975** | 3,590 |

## 6 Gwariant arall - Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

| | **2014** **£'000** | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **70** | 107 |
| Cyfathrebu | **76** | 49 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **256** | 312 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[36] | **800** | 1,444 |
| | **1,202** | 1,912 |

## 7 Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

| | **Costau staff £'000** | **Dibrisiant £'000** | **Costau eraill £'000** | **Cyfanswm 2014 £'000** | Cyfanswm 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,362** | **72** | **446** | **1,880** | 2,145 |
| • Addysg | **423** | **41** | **1,186** | **1,650** | 1,395 |
| • Cynnal y gofrestr | **3,329** | **219** | **3,991** | **7,539** | 5,560 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **16,553** | **2,425** | **36,366** | **55,344** | 48,664 |
| Costau llywodraethu | **1,977** | **103** | **895** | **2,975** | 3,590 |
| Gwariant arall: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **544** | **40** | **618** | **1,202** | 1,912 |
| | **24,188** | **2,900** | **43,502** | **70,590** | 63,266 |

[36] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d)

## 8 Dadansoddi costau uniongyrchol

| | **Costau uniongyrchol £'000** | **Costau cymorth £'000** | **Cyfanswm 2014 £'000** | Cyfanswm 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,575** | **305** | **1,880** | 2,145 |
| • Addysg | **1,477** | **173** | **1,650** | 1,395 |
| • Cynnal y gofrestr | **6,610** | **929** | **7,539** | 5,560 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **49,866** | **5,478** | **55,344** | 48, 664 |
| **Is-gyfanswm gweithgareddau elusennol** | **59,528** | **6,885** | **66,413** | 57,764 |
| • Llywodraethu | **2,783** | **192** | **2,975** | 3,590 |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,035** | **167** | **1,202** | 1,912 |
| **Cyfanswm** | **63,346** | **7,244** | **70,590** | 63,266 |

**9 Dadansoddi costau cymorth**

| Cost cymorth | Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau £'000 | Addysg £'000 | Cynnal y gofrestr £'000 | Addasrwydd i ymarfer £'000 | Llywodraethu £'000 | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd £'000 | Cyfanswm 2014 £'000 | Cyfanswm 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau | **28** | **16** | **86** | **508** | **18** | **16** | **672** | 670 |
| Cyllid | **75** | **42** | **228** | **1,345** | **47** | **41** | **1,778** | 2,020 |
| Adnoddau Dynol | **105** | **60** | **318** | **1,876** | **66** | **56** | **2,481** | 2,292 |
| TGCh | **97** | **55** | **297** | **1,749** | **61** | **54** | **2,313** | 2,099 |
| | **305** | **173** | **929** | **5,478** | **192** | **167** | **7,244** | 7,081 |

Dyrannwyd y costau cymorth ar sail nifer y staff ym mhob maes

## 10 Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl dosbarthiad naturiol

| | **2014 £'000** | 2013 £'000 | **Manylion (gweler y dudalen nesaf)** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | **24,188** | 22,263 | 10.1 |
| Costau staff eraill | **1,443** | 1,011 | 10.2 |
| Safleoedd | **3,699** | 3,610 | |
| Yswiriant | **141** | 118 | |
| Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw | **198** | 152 | |
| Llogi cyfarpar | **3** | 7 | |
| Addasrwydd i ymarfer | **26,674** | 24,752 | 10.3 |
| Apeliadau Cofrestru | **92** | 90 | |
| Dibrisiant | **2,900** | 2,465 | 10.4 |
| Dadfeiliadau | **264** | 212 | |
| Arlwyo ar gyfer gwrandawiadau a chyfarfodydd addasrwydd i ymarfer | **705** | 446 | 10.5 |
| Ffreutur y staff | **126** | 215 | 10.6 |
| Cost sicrhau ansawdd addysg | **1,056** | 786 | 10.7 |
| Costau adolygu Awdurdodau Goruchwylio Lleol | **0** | 20 | |
| Ffioedd proffesiynol | **3,329** | 1,724 | 10.8 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio | **25** | 28 | |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) | **5** | 5 | |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr – costau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio | **0** | 17 | |
| Datblygu TG a chymorth TG | **2,780** | 1,999 | 10.9 |
| Tâl postio | **923** | 859 | |
| Cost argraffu a deunydd ysgrifennu | **481** | 607 | 10.10 |
| Hysbysebu a recriwtio | **374** | 744 | 10.11 |
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **70** | 107 | |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **256** | 312 | |
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **313** | 278 | 10.12 |
| Costau pwyllgorau | **18** | 47 | |
| Costau cymorth eraill | **527** | 392 | 10.13 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **70,590** | 63,266 | |

**Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 10**

## 10.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Cynyddodd nifer y staff yn 2013-2014 yn bennaf ym maes Addasrwydd i Ymarfer. Mae angen yr adnodd hwn er mwyn rheoli maint a chymhlethdod cynyddol ein llwyth achosion, i'r safonau o ran amseroldeb ac ansawdd sydd eu hangen mewn perthynas â'n dangosyddion perfformiad allweddol a'n hymrwymiadau i'r Adran Iechyd. Recriwtiwyd staff parhaol a staff dros dro hefyd er mwyn cefnogi rhaglen gynyddol o weithgarwch rheoleiddiol ar draws y sefydliad.

Rhoddwyd cam cyntaf adolygiad hirddisgwyliedig o gyflogau a graddfeydd y sefydliad cyfan ar waith ym mis Ionawr 2014, gan sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y lefelau cyflog gofynnol a feincnodwyd o leiaf.

Gwnaed dyfarniad cyflog o 2.3 y cant i bob aelod cymwys o staff yn weithredol o 1 Ebrill 2013, yn dilyn y penderfyniad i rewi cyflogau pob aelod o staff yn 2012-2013 ac eithrio'r rheini yn y ddau fand cyflog isaf.

Cafodd y cynnydd hwn ei wrthbwyso i raddau gan gostau dileu swyddi is. Yn 2012-2013 arweiniodd adolygiad strwythurol at ddileu nifer o swyddi, ond llwyddwyd i osgoi'r costau hyn yn 2013-2014.

## 10.2 Costau staff eraill

Mae'r cynnydd mewn costau teithio staff yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r cynnydd mewn gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer, gyda 30 o wrandawiadau ar gyfartaledd yn cael eu cynnal bob dydd mewn amryw leoliadau ar draws y pedair gwlad.

Yn 2013-2014 rhoddwyd blaenoriaeth i fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddiant staff well er mwyn helpu i gadw a datblygu staff ar draws y sefydliad a gwella gallu rheolwyr. Mae hyn yn rhan hanfodol o bolisi Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadol y CNB.

## 10.3 Addasrwydd i Ymarfer

Ceir manylion am weithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn yn yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud ag adolygu perfformiad. Gwelwyd cynnydd mewn costau yn unol â'r cynnydd mewn gwrandawiadau yn ystod y flwyddyn gyda 30 o wrandawiadau neu gyfarfodydd ar gyfartaledd yn cael eu cynnal bob dydd. Gwrthbwyswyd y costau hyn yn rhannol gan arbedion effeithlonrwydd a weithredwyd yn 2012-2013, a oedd yn cynnwys trefniadau amgen yn lle gwrandawiadau llawn, dod â'r gwaith o ymchwilio i achosion yn fewnol, a gostwng costau ysgrifenwyr llaw-fer. Parhawyd i weld buddiannau'r arbedion hyn drwy gydol 2013-2014.

## 10.4 Dibrisiant

Mae'r tâl dibrisiant uwch yn deillio o flwyddyn lawn o ddibrisiant yn ymwneud â'r ystafelloedd gwrandawiadau yn 20 Old Bailey, a ddefnyddiwyd o fis Ionawr 2013.

## 10.5 Arlwyo ar gyfer gwrandawiadau a chyfarfodydd addasrwydd i ymarfer

Gellir priodoli'r cynnydd i lefel uwch o wrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer yn ystod 2013-2014, gofynion staff arlwyo ychwanegol er mwyn gwasanaethu'r gwrandawiadau, ac ailddosrannu costau llafur.

## 10.6 Ffreutur staff

Gellir priodoli'r gostyngiad i ailddosrannu costau llafur i'r gyfarwyddiaeth berthnasol, sydd bellach wedi'u datgelu o dan gostau arlwyo.

## 10.7 Costau sicrhau ansawdd addysg

Gellir priodoli'r cynnydd i'r costau trosglwyddo a sefydlu mewn perthynas â'r contract newydd sydd bellach yn cyfuno'r gwaith o Sicrhau Ansawdd addysg ac Awdurdodau Goruchwylio Lleol. Roedd y gwaith sicrhau ansawdd a wnaed mewn perthynas ag Awdurdodau Goruchwylio Lleol yn 2013-2014 yn gyson â'r hyn a ragwelwyd ar y cyfan. Roedd y gwaith sicrhau ansawdd a wnaed ym maes addysg ar ffurf gweithgarwch cymeradwyo a monitro a gynlluniwyd yn gyson â'r hyn a ragwelwyd. Fodd bynnag, gan fod rhai digwyddiadau yn gymhleth, roedd angen adnoddau adolygu ychwanegol.

## 10.8 Ffioedd proffesiynol

Cafwyd cyngor proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2013-2014 er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad mewn nifer o feysydd ar draws y sefydliad. Ym maes Addasrwydd i Ymarfer, cyflogwyd ymgynghorwyr i ymgymryd â gwaith o dan y rhaglen newid yn ymwneud â chyflwyno archwilwyr achosion a chyswllt â chyflogwyr, archwiliad o achosion a gaewyd ac adolygiad darbodus o brosesau yn ymwneud â phanelwyr. Mewn meysydd eraill, ymgysylltwyd ag ymgynghorwyr ar gyfer nifer o brosiectau eraill, gan gynnwys yr adolygiad sefydliadol o gyflogau a graddfeydd staff, adolygiad o brosesau cofrestru o dramor, y cynllun gwella cofrestriadau a'r adolygiad o'n trefniadau llywodraethu.

## 10.9 Datblygu TG a chymorth TG

Gellir priodoli'r cynnydd yn bennaf i'r gwaith o weithredu Cam Un o'r strategaeth TGCh a gymeradwywyd. Mae hyn wedi arwain at feddalwedd a chaledwedd TG gwell, er mwyn darparu seilwaith mwy sefydlog, trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer staff a lefel gadarn o gymorth ar gyfer nifer gynyddol y defnyddwyr ar draws y CNB.

### 10.10 Argraffu a deunydd ysgrifennu

Gellir priodoli'r gostyngiad i arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd drwy gynnal lefelau stoc is, costau is drwy ddefnyddio papur A4 yn lle A3 ar gyfer ffurflenni cofrestru ac adnewyddu, a rhoi'r gorau i ddefnyddio cardiau PIN.

### 10.11 Hysbysebu a recriwtio

Gellir priodoli'r gostyngiad i'r tîm mwy sefydlog o uwch reolwyr a sefydlwyd erbyn 2013-2014, a'r defnydd cynyddol o ddulliau recriwtio ar-lein cost-effeithiol. At hynny, cafwyd ymgyrchoedd recriwtio sylweddol yn 2012-2013 ar gyfer y Cyngor newydd a ddechreuodd ar ei waith o 1 Mai 2013, ac ar gyfer panelwyr Addasrwydd i Ymarfer, nad oedd eu hangen yn 2013-2014.

### 10.12 Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau

Gellir priodoli'r cynnydd yn bennaf i gostau hyfforddi ar gyfer y Cyngor newydd a ddechreuodd ar ei waith o 1 Mai 2013, a chostau aelodau cynyddol mewn perthynas â chadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru (ceir manylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth).

### 10.13 Costau cymorth eraill

Mae costau cymorth eraill yn cynnwys costau ein system ffôn, costau cyfathrebu cyffredinol a thaliadau banc.

## 11 Gwybodaeth am gyflogeion

| | **2014** **£'000** | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | | |
| Cyflogau[37] | | |
| • Rheoli | **741** | 808 |
| • Gweinyddu | **15,275** | 13,936 |
| Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau YG cyflogeion): | | |
| • Rheoli | **87** | 71 |
| • Gweinyddu | **1,268** | 1,152 |
| Costau pensiwn - staff presennol:[38] | | |
| • Rheoli | **147** | 235 |
| • Gweinyddu | **3,204** | 2,769 |
| • Ymddeol yn gynnar[39] | **-** | 513 |
| Costau pensiwn - staff ymddeoledig sefydliadau blaenorol[40] | **26** | 26 |
| Staff dros dro | **3,440** | 2,753 |
| | **24,188** | 22,263 |

[37] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 10.1
[38] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21
[39] Yn ystod 2013-2013 daeth y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari’r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cydnabuwyd y swm llawn o £513k yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2012–2013. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012. Ar 31 Mawrth 2014, roedd £424k yn weddill yn y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd i ddod.
[40] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21

**Gwybodaeth am yr uwch dîm rheoli**

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Roedd cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| **Bandiau cyflog** | **2014 Nifer y staff** | 2013 Nifer y staff |
|---|---|---|
| (£) | | |
| 20,001 - 30,000 | **-** | - |
| 30,001 - 40,000 | **-** | 1 |
| 40,001 - 50,000 | **-** | 1 |
| 50,001 - 60,000 | **-** | 1 |
| 60,001 - 70,000 | **-** | 1 |
| 70,001 - 80,000 | **-** | - |
| 80,001 - 90,000 | **-** | 1 |
| 90,001 - 100,000 | **-** | 1 |
| 100,001 - 110,000 | **1** | - |
| 110,001 - 120,000 | **3** | 1 |
| 120,001 - 130,000 | **1** | **-** |
| 130,000 - 140,000 | **-** | **-** |
| 140,001 - 150,000 | **-** | - |
| 150,001 - 160,000 | **-** | 1 |
| 160,001 – 170,000 | **1** | - |

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a roddwyd i gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **2014** | 2013 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| L Mallors | **1,001-1,500** | 1,001-1,500 |
| S Page | **1,001-1,500** | 1,001-1,500 |
| K Kolyva | **3,500-4,000** | - |
| A Sansome | **4,500-5,000** | **-** |
| S Atkinson | - | 1,001-1,500 |
| S Williams | **-** | 2,001-2,500 |

Roedd cyfanswm y pensiynau a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2014 ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny sy'n rhan o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y CNB fel a ganlyn:

| **Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth** (£) | **2014 Nifer y staff** | 2013 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 0 - 5,000 | **3** | 3 |
| 5,001 - 10,000 | **1** | 1 |
| 10,001 - 15,000 | **-** | 2 |
| 15,001 – 20,000 | **-** | 2 |
| 20,001 – 25,000 | **1** | - |

Mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y CNB.

Darperir cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig drwy gynllun (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth, mae cyfandaliad yn cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy yn daladwy a chaiff holl gyfraniadau'r aelod eu dychwelyd ynghyd â llog di-dreth cyfansawdd o 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/160 o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

Mae'r CNB hefyd yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer ei staff drwy The People’s Pension. Cyfrifir am y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fyddant yn ddyledus. Cyfraniad sylfaenol y cyflogwr yw 4% a chyfraniad sylfaenol staff yw 1%.

**Gwybodaeth arall am gyflogeion**

Yn ogystal â'r uchod, roedd 17 (2013: 14) o aelodau eraill o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o fewn y bandiau canlynol:

| | **2014** | 2013 |
|---|---|---|
| | **Nifer y staff** | Nifer y staff |
| £60,001 - £70,000 | **8** | 11 |
| £70,001 - £80,000 | **7** | 2 |
| £80,001 - £90,000 | **1** | 1 |
| £90,001 - £100,000 | **1** | - |

Cyflogwyd 496 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 490) ac yn y flwyddyn flaenorol cyflogwyd 441 (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 435). Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer y staff i'r angen am staff ychwanegol yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer (gweler nodyn 10.1).

**12 Trethiant**

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r Cyngor dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

## 13 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | Safle ar brydles hir yn 23PP Nodyn 13.1 | Adnewyddu'r Adeilad yn 23PP | Adnewyddu Adeiladau AiY | Prosiectau TG Nodyn 13.2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Cost: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2013 | 448 | 3,998 | 11,950 | 5,620 | 5,980 | 3,388 | **31,384** |
| Ychwanegiadau | - | 2,513 | - | - | 8 | - | **2,521** |
| Ailbrisio | - | - | 3,498 | - | - | - | **3,498** |
| 31 Mawrth 2014 | 448 | 6,511 | 15,448 | 5,620 | 5,988 | 3,388 | **37,403** |
| | | | | | | | |
| Dibrisiant: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2013 | 227 | 2,731 | - | 3,320 | 1,327 | 3,388 | **10,993** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 15 | 917 | 243 | 563 | 1,162 | - | **2,900** |
| Addasiad ailbrisio | - | - | (243) | - | - | - | (243) |
| 31 Mawrth 2014 | 242 | 3,648 | - | 3,883 | 2,489 | 3,388 | **13,650** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2014** | **206** | **2,863** | **15,448** | **1,737** | **3,499** | **0** | **23,753** |
| Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2013 | 221 | 1,267 | 11,950 | 2,300 | 4,653 | 0 | 20,391 |

**13 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen - parhad**

13.1 Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd y CNB) y buddiant ar brydles yn 23 Portland Place, Llundain W23B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Carter Jonas, a nodwyd ei bod yn werth £17,185,000. Dylid nodi bod cyfamod cyfyngol ar y brydles.

13.2 Mae'r categori asedau prosiectau TG yn cynnwys y system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a'r gwaith o wella'r seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.

13.3 Mae cyfarpar yn cynnwys y gost o fuddsoddi'n sylweddol yn y seilwaith TG yn ystod 2013-2014, a gwelliannau mawr i feddalwedd. Mae hyn wedi cynnwys moderneiddio caledwedd a phrynu caledwedd newydd yn lle hen galedwedd, gwella'r llwyfannau gweithredu, gwella adnoddau storio a systemau diogelwch gwybodaeth.

**14 Trafodion â phartïon cysylltiedig**

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng y CNB a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r CNB mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, talwyd cyfanswm o £48,000 (2012-2013: £49,800) i'r sawl oedd yn dal swydd y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd. Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £313,000 (2012-2013: £278,000) i aelodau'r Cyngor neu aethpwyd i'r costau hyn mewn perthynas â hwy.

Telir aelodau’r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres y CNB. Yn 2012-2013 talwyd swm o £18,000 i Brifysgol Southbank Llundain mewn perthynas â gwasanaeth y Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012.

Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 27-28.

Gwnaed croniad o £38,551 (2012 – 2013: £26,000) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

**15 Dyledwyr**

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | **167** | 109 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **990** | 1,638 |
| | **1,157** | 1,747 |

**16 Credydwyr**

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr eraill a chroniadau | **9,824** | 9,546 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol (gan gynnwys YG y Cyflogwr) | **454** | 420 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2013-2014 | **-** | 32,255 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2014-2015 | **39,009** | - |
| | **49,287** | 42,221 |

**17 Darpariaethau**

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Dadfeiliadau | **258** | - |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[41] | **67** | 67 |
| | **325** | 67 |

**18 Credydwyr**

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2014-2015 | **-** | 102 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2015-2016 | **105** | - |
| | **105** | 102 |

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cyfnodol a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

[41] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 11, troednodyn 38.

## 19 Darpariaethau

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Dadfeiliadau | **218** | 212 |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[42] | **357** | 424 |
| | **575** | 636 |

## 20 Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002, cofrestrwyd y CNB ar Gofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgil hyn caniatawyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn yn rhoi buddiannau treth hefyd[43]. Ar 18 Mehefin 2007, cofrestrwyd y CNB â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## 21 Ymrwymiadau pensiwn

Mae'r CNB yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r CNB yn cymryd rhan mewn cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ar y cyd â'r Adran Iechyd ac NHS Education for Scotland (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd yn gyfranogwr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013. Mae'r cynllun, yr oedd tua 48 y cant o gyflogeion y CNB yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2014, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y fath fodd ag i ledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2013, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £94.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 86 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amorteiddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 1.05 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o 0.55 y cant a -0.15 y cant y flwyddyn mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

[42] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 11, troednodyn 38.
[43] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 12

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2013), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 69 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronedig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr.  Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £45.3 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd cyfredol, erbyn 31 Mawrth 2023.  Bydd y CNB yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £983k y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (cymhwysir y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015).

Safon gyfrifyddu, FRS 17: Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfran y CNB o gyfanswm diffyg y cynllun sef £15.4 miliwn ar adeg y prisiad actiwaraidd diweddaraf (31 Mawrth 2013) wedi'i chynnwys yn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, gan fod y cynllun yn un aml-gyflogwr ac ni all y CNB nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae FRS 17 yn darparu ar gyfer cyfrif am y cyfraniad i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.  Fel y cyfryw, bydd y gost a gydnabyddir yn Natganiad o Weithgareddau Ariannol y CNB yn cyfateb i'r cyfraniad sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn.

Cyflwynodd y CNB gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai staff ymuno ag ef yn wirfoddol o 1 Tachwedd 2013, a weithredir gan The People's Pension.  Mae'r CNB yn cyfrannu cyfradd sylfaenol o 4% o gyflog pensiynadwy ac mae'r cyflogai'n cyfrannu cyfradd sylfaenol o 1%. Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at uchafswm cyfraniad y cyflogwr, sef 12%. Mabwysiadwyd y cynllun hwn fel cynllun awto-gofrestru ar gyfer y CNB o 1 Ebrill 2014.

Roedd y gost pensiwn a aseswyd ar sail cyngor actiwaraidd yn y gorffennol ac a godwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | **2014<br>£'000** | 2013<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau'r CNB (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn | **3,349** | 3,026 |
| Darpariaeth ymddeol yn gynnar[44] | **-** | 491 |
| Cyfraniadau'r CNB (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn | **2** | - |
| | **3,351** | 3,517 |
| Cyfraniad y CNB (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | **27.4%** | 27.4% |
| Cyfraniad cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | **6%** | 6% |
| Cyfraniad sylfaenol y CNB (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | **4%** | - |
| Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | **1%** | - |

[44] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 11, troednodyn 38

Mae'r CNB yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn y CNB. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn unol â hynny. Yn 2013 - 2014 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £26,583 (2012 - 2013: £25,910).

**22 Ymrwymiadau cyfalaf**

Ar 31 Mawrth 2014, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

**23 Cysoni adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu**

| | **2014 £'000** | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau | **(5,397)** | 10,089 |
| Incwm buddsoddiadau | **(983)** | (1,275) |
| Taliadau dibrisio | **2,900** | 2,465 |
| Gostyngiad/cynnydd) mewn dyledwyr | **590** | (190) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | **7,266** | (710) |
| Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu | **4,376** | 10,379 |

**24 Cysoni llif arian parod net â symudiadau mewn cronfeydd net**

| | **2014 £'000** | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **2,838** | 9,980 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2013 | **75,412** | 65,432 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2014 | **78,250** | 75,412 |

**25 Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net**

| | 1 Ebrill 2013 **£'000** | **Llifau arian parod £'000** | **31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|---|
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **75,412** | **2, 838** | **78,250** |
| Cyfanswm | **75,412** | **2,838** | **78,250** |

## 26 Ymrwymiadau prydlesu

Ar 31 Mawrth 2014, roedd gan y CNB ymrwymiadau i wneud taliadau yn y flwyddyn ganlynol o dan brydlesau gweithredu nad oedd modd eu canslo fel y nodir isod.

| | Tir ac adeiladau | | Offer a pheiriannau | |
|---|---|---|---|---|
| | **2014** | 2013 | **2014** | 2013 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| • O fewn blwyddyn | **339** | - | **2** | 5 |
| • Yn yr ail i bumed flwyddyn gan gynnwys y blynyddoedd hynny | **1,629** | 509 | **-** | - |
| • Mewn mwy na phum mlynedd | **113** | 1,940 | **-** | - |
| Ymrwymiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn | **2,081** | 2,449 | **2** | 5 |

Mae'r CNB yn prydlesu eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House (llawr daear), 114–116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021, Clarendon House (llawr cyntaf), 114-116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 20 Chwefror 2016, 1 Kemble Street, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019 ac 20 Old Bailey ar gyfer y cyfnod hyd at 20 Tachwedd 2014.

## 27 Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

| | **Balans ar 1 Ebrill 2013 £'000** | **Incwm £'000** | **Adnoddau a wariwyd £'000** | **Balans ar 31 Mawrth 2014 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| AiY ac adfer cronfeydd wrth gefn (i) | **18,857** | 242 | (7,099) | **12,000** |
| Cofrestriadau o dramor – (ii) | **-** | 1,438 | (1,438) | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **18,857** | 1,680 | (8,537) | **12,000** |

(i) Darparwyd grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd er mwyn rhoi'r sefydlogrwydd ariannol i gyflawni Dangosydd Perfformiad Allweddol y CNB ym maes dyfarnu erbyn mis Rhagfyr 2014, cael gwared ar yr ôl-groniad hanesyddol o achosion Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a sicrhau'r lefelau gofynnol mewn cronfeydd wrth gefn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Caiff y grant ei wario mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig yn lleihau yn unol â hynny bob mis, gan ddechrau ym mis Chwefror 2013, gyda'r swm terfynol yn cael ei wario ym mis Rhagfyr 2015.

(ii) Mae'r grant o £1.438 miliwn yn cynrychioli'r arian grant ar gyfer 2013-2014 gan yr Adran Iechyd er mwyn cefnogi gwelliannau i'r ffordd rydym yn asesu ac yn prosesu ceisiadau cofrestru gan ymgeiswyr o dramor. Prif ddiben yr arian grant ar gyfer 2013-2014 oedd cefnogi'r gwaith hanesyddol o archwilio cofrestriadau o

dramor a'r gwaith o weithredu proses ddilysu manylion personol electronig ar gyfer ymgeiswyr o dramor. Mae ail gais am grant yn cael ei wneud ar gyfer 2014-2015 er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu profion cymhwysedd ar gyfer unigolion o dramor sy'n gwneud cais i gofrestru.

**28 Asedau net yn ôl cronfa**

| | Digyfyngiad cyffredinol £'000 | Cyfyngedig £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog | **23,753** | | **23,753** |
| Asedau cyfredol | **67,407** | **12,000** | **79,407** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(49,612)** | | **(49,612)** |
| Rhwymedigaethau hirdymor | **(680)** | | **(680)** |
| Balans ar 31 Mawrth 2014 | **40,868** | **12,000** | **52,868** |

**29 Taliadau arbennig**

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig[45] yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 (gwnaed dau daliad arbennig gwerth £23,162 i gyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013).

[45] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

**Atodiad 1**

## The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001[46].

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

1. In this Determination-

> "the accounts" means the accounts which it is the Council's duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;
>
> "the Charities' SoRP" means the "Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.
>
> "the Council" means the Nursing and Midwifery Council;
>
> "the FReM" means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

**Determination**

2. The accounts must-

> (a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council's state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year;
>
> (b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

---

[46] O.S. 2002/253

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP;

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 18th July 2011